

Llais Ogwan


Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhagfyr 2014

Rhif 450

50c

Doniau'r Dyffryn



Unawd Cerdd Dant :
Efa Glain Jones, Ysgol Llanllechid – 1af.

MWYNHAWYD Eisteddfod lwyddianus iawn eto eleni gyda gweithgareddau Nos Wener yn cael eu cynnal yn Neuadd Ogwen ar ei newydd wedd a chystadleuthau Dydd Sadwrn yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Llongyfarchiadau i bawb fu'n llwyddiannus ynddi a diolch i'r rhai fu'n gyfrifol am weithio ynddi ac yn ymwneud â hi mewn llu o wahanol ffyrdd.

Camp

Dylid yma dynnu sylw at gamp un ferch o'r ardal a lwyddodd i gipio nifer o wobrau unigol ac fel aelod o bartïon canu, llefaru ac offerynnol. Llongyfarchwn Luned Elfyn am ddod i'r brig mewn sawl cystadleuaeth. Mae pawb arall a fu'n cystadlu hefyd yn haeddu pob canmolïaeth a diolch i'r rhai fu'n gweithio mor galed yn eu hyfforddi. Heboch chi ni fyddai unrhyw eisteddfod yn bosibl.

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i Holl Ddarllenwyr y Llais

Agor Siop Ogwen



Gareth Pritchard a Hywel Williams AS
yn agor y siop.

AGORWYD Siop Ogwen yn aswyddogol gan Hywel Williams AS a Gareth Pritchard o Heddlu Gogledd Cymru ar y 14eg o Dachwedd.

Braf oedd gallu croesawu rhai o'r asiantaethau a gefnogodd y fenter i weld y Siop ar ei newydd wedd. Roedd y digwyddiad yn gyfle i Heddlu Gogledd Cymru a Phartneriaeth Ogwen ddangos ffrwyth llafur llawer o waith caled o ran mynd am grantiau cyhoeddus, prynu ac adnewyddu 26 Stryd Fawr a'i ddatblygu'n ofod aml-asiantaethol i wasanaethu trigolion Dyffryn Ogwen.

Yn ystod y digwyddiad, rhoddwyd areithiau byrion gan Paul Rowlinson, cadeirydd cyfredol y bartneriaeth; Julian Sandham, y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd; Gareth Pritchard, Dirprwy Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Hywel Williams, Aelod Seneddol Arfon. Dywedodd Hywel Williams ei bod yn bleser bod yno i weld canlyniad y cydweithio agos rhwng y tri chynghor cymuned lleol i sefydlu Partneriaeth Ogwen.

Ceir mwy o hanes yr agoriad ar dudalen 14.

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY
 01248 601669

Annwyl Ddarllenwyr

Annwyl Olygydd,
Hoffwn dynnu sylw eich darllenwyr at gynhyrchiad unigryw gan gwmni drama newydd sydd yn ymweld â'ch ardal yn fuan.

Mae 'Mr Bulkeley o'r Brynddu', sydd yn cael ei berfformio yn Neuadd Ogwen, Bethesda nos Iau 29 Ionawr 2015, yn dod â dyddiaduron o'r 18fed ganrif yn fyw drwy ddrama a cherddoriaeth. Yn y ddrama, cawn olygfeydd dramatig sydd yn adlewyrchu bywydau'r bonedd a'r werin yn ystod y cyfnod: y diddanwch a'r cyffro.

Mae'r perfformiadau dwyieithog yn cael eu llwyfannu gan Gwmni Pendraw, cwmni sydd wedi'i sefydlu'n unswydd i greu profiadau theatraidd sy'n cyfuno themâu hanesyddol a gwyddonol.

Yr actor adnabyddus, Wyn Bowen Harries sy'n cyfarwyddo'r cynhyrchiad ac meddai: "Mae bywyd William Bulkeley yn darllen fel opera sebon. Priododd ei ferch â môr-leidr, bu farw ei fab o alcoholiaeth, cafodd ei fam ei lladd gan ysgol yn syrthio ar ei phen cyn cael ei sathru gan wartheg! Fel sgweier ac Ustus Heddwch, mae ei ddyddiaduron yn rhoi darlun diddorol iawn o fywyd cefn gwlad Ynys Môn yn y 1700au."

"Byddwn yn cyflwyno uchafbwyntiau o'r dyddiaduron, gan gynnwys hanes ei deithiau i'r Iwerddon ynghyd â ffeiriau, ymladd ceiliogod, a sgandalau'r llys ym Miwmares. Cofnodwyd nifer o ganeuon yn y dyddiaduron ac fe gynhwysir digonedd o gerddoriaeth yn y perfformiad."

Yn ôl Manon Wyn Williams yn adolygu'r ddrama yn Barn Hydref 2014: "cafwyd perfformiadau tan gamp gan yr actorion sef Wyn ei hun, (Bowen Harries), Rhodri Siôn a Manon Wilkinson..."

Cysylltwch â Swyddfa Docynnau Neuadd Ogwen ar 01248 605388 am docynnau ar gyfer y perfformiad.

Cyflwynir y cynhyrchiad mewn cydweithrediad â Theatr Bara Caws ac fe'i noddir gan Gyngor Sir Ynys Môn, Cynllun Noson Allan, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cymdeithas Edward Llwyd/Llên Natur, MagnoxSDF a Chonsortium Newid Hinsawdd Cymru.

Yn gywir,
Elinor Elis-Williams
Rheolwr Marchnata
ar ran Cwmni Pendraw



Cyfarchion Nadolig

Ni fydd Len a Megan Williams, Hen Bost, Gerlan yn anfon cardiau Nadolig eleni, ond maent yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Mae'r Parchedig Geraint Hughes a'i briod Ann, yn anfon cyfarchion o Bwllheli, ac yn dymuno Nadolig llawn bendithion a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Nyffryn Ogwen.

Cân i Gymru 2015 – Galw am gystadleuwyr

Mae hoff gystadleuaeth canu'r genedl yn ei hôl! Ac ar 7 Mawrth 2015, bydd wyth cân yn cystadlu am deitl Cân i Gymru ynghyd â gwobr o £3,500. Bydd yr enillydd hefyd yn cynrychioli Cymru yn yr Wyl Ban-geltaidd.

Yn dilyn llwyddiant Barry a Mirain Evans y llynedd gyda'r gân 'Galw Amdanat Ti', mae'n amser i gystadleuwyr newydd gamu i'r sbotolau ym Mhafiliwn Môn yng Ngwalchmai.

Bydd fformat newydd i'r rhaglen eleni gyda phedwar ffigwr adnabyddus o fyd y gân yn mentora'r cystadleuwyr wrth iddyn nhw recordio eu caneuon yn y stiwdio. Bydd enwau'r bobl yma'n cael eu datgelu cyn hir.

Meddai Elin Fflur, cyn enillydd y gystadleuaeth a chyflwynydd Cân i Gymru 2015: "Pleser a baint yw cael cyflwyno eto eleni. Mae'r safon yn uchel iawn bob blwyddyn a dwi'n edrych ymlaen yn fawr iawn at gael clywed y caneuon a gweld y cantorion yn perfformio.

"Roedd ennill y gystadleuaeth yn brofiad gwfreiddiol ond roedd y nerfau'n dynn iawn ar y noson hefyd, felly dwi'n gwybod sut mae'r cystadleuwyr yn teimlo."

Dyma'r 46fed tro i'r gystadleuaeth gael ei chynnal, ac mae enillwyr y gorffennol yn cynnwys Margaret Williams, Bryn Fôn, Ryland Teifi ac Iwcs a Doyle.

Felly os ydych chi'n aelod o fand, yn gyfansoddwr neu'n ganwr, mae'r gystadleuaeth yn agored i bawb dros 16 oed a'r dyddiad cau yw Dydd Gwener, 16 Ionawr 2015. Gallwch ddarllen y rheolau llawn a lawrlwytho ffurflen gais drwy ymweld â [s4c.co.uk/canigyrmu](http://www.s4c.co.uk/canigyrmu) <<http://www.s4c.co.uk/canigyrmu>>.

TAITH NODDEDIG AR Y WEIREN WIB
GAN BERNARD JONES
I GODI ARIAN AT TY GOBAITH
20 Rhagfyr am 10 y.b.
Gallwch gyfrannu trwy fynd i'r wefan :-
"Just Giving Bernard Jones 25"
neu drwy gysylltu â Bernard ar
01248 360955

MEDDYGFA BETHESDA
Gwybodaeth Bwysig
Newidiadau

Bydd Dr. Gareth Jones yn ymddeol ar 31 Mawrth 2015 a'r Dr. Ian Williams yn ymuno â'r Feddygfa ar 1 Ebrill 2015. Mae Dr. Williams yn Gymro Cymraeg, yn enedigol o Ddeiniolen, ac yn Feddyg Teulu profiadol iawn gyda 18 mlynedd o brofiad yn ardal Conwy.

Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar gasét bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Hysbysebu yn y Llais

I hysbysebu yn Llais Ogwen ac i drafod telerau a'ch holl anghenion cysylltwch â:

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ceisiadau am Nawdd Ariannol
Hysbysiad Pwysig

Mae Cyngor Cymuned Bethesda yn gwahodd ceisiadau am nawdd ariannol gan Gymdeithasau/Mudiadau lleol.

Os ydych am wneud cais anfonwch eich Mantolen Ariannol ddiweddaraf ynghyd â manylion eich banc at y Clerc cyn 31 Rhagfyr 2014.

Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:
Anwen Jones,
Cyngor Cymuned Bethesda,
Siop Ogwen, 26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE.
01248 602131
E bost: cyngorbethesda@ogwen.org



Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW 📞 **601592**

Joe Hughes,
Awel y Nant,
Ffordd Ffrydlas, Bethesda
📞 **601902**

Ysbyty

Anfonwn ein cofion at nifer o drigolion yr ardal sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty, gan ddymuno gwellhad buan i bawb ohonynt, yn eu plith:

Mrs Doris Jones, Maes Coetmor;
Mr Ian Griffith, Allt Pen y Bryn;
Mr John Roberts, Arafa Don;
Mr Roy Jones, Stryd Fawr;
Mrs Jean Ogwen Jones, Coetmor;
Mr Jim Amos, Glanogwen;
Mrs Betty Roberts, Stryd Dŵr;
Mrs Olive Wiliams, Maesygarnedd.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at deuluoedd a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar; yn eu plith:-
Mr a Mrs Stokes a’r teulu,
Penybryn , ar golli chwaer, Linda, Carneddi.

Teulu 3 Glanogwen – colli chwaer-yng-nghyfraith a modryb.

Mr a Mrs Evan Jones, 21 Rhes Ogwen ar golli eu mab-yng-nghyfraith, Simon, yn 43 oed.

Marwolaeth

Ar 9 Tachwedd bu farw Mrs Vera Williams, Heulwen, 17 Stad Coetmor, yn 85 oed. Priod y diweddar Mr Les Williams a mam a mam-yng-nghyfraith annwyl Carol a Huw, Richard a Delyth, a nain a hen nain hoffus Rhian ac Iwan, Aled a Marie, Gareth a Rhian, Gwyn a Lowri, Meilyr, Steffan a Gwenan, a Rhodri. Hefyd i Casi, Alys, Seren, Cai, Morgan a Caitlin a chwaer Mrs Lilian Evans, Coed y Parc. Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Mercher, 19 Tachwedd gyda gwasanaeth yn Amlosgfa Bangor. Claddwyd ei llwch ym mynwent Eglwys Coetmor. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Ddr Huw John Hughes a’r Parchedig Gwyndaf Richards. Cydymdeimlwn â chi fel teulu i gyd.

Yn Ysbyty Walton, Lerpwl, ar 12 Tachwedd, bu farw Mr Simon Williams, Saywood, Hen Ffordd Conwy, Penmaenmawr, yn 34 oed. Priod annwyl i Mrs Beverly Williams, gynt o Res Ogwen. Roedd yn fab i Mr a Mrs Alun Williams, gynt o Dalybont ac yn frawd i John, Manon, Adam, Luke a Hannah a mab-yng-nghyfraith i Mr a Mrs Evan Jones, Rhes Ogwen. Cynhaliwyd gwasanaeth yn Amlosgfa Bangor ddydd Gwener 21 Tachwedd. Cydymdeimlwn yn fawr iawn â’i briod Beverly a’r teulu i gyd yn eu colled fawr.

Ar 13 Tachwedd yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mr Emlyn

Evans, Llwyn Meurig, 1 Rhos y Nant, yn 90 oed. Priod annwyl i Mrs Eileen Evans ers 67 o flynyddoedd. Tad a thad-yng-nghyfraith gofalus i Dafydd Meurig a Louise, Morfudd Wyn a Dewi, taid hoffus i Dewi, Llinos, Siôn a Rhian, Sara ac Ioan, a hendaidd i Owain Daniel a Lo-Rose.

Cynhaliwyd gwasanaeth yng nghapel Jerusalem lle roedd yn aelod ffyddlon a gweithgar, fore Sadwrn 22 Tachwedd, ac yna yn amlosgfa Bangor. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Pryderi Llwyd Jones a chafwyd tair teyrnged gan Gwerfyl Pierce Jones y Cyngor Llyfrau, Alun Williams o Wasg Gee, a Griff Charles Morris ei gymydog. Mrs Menai Williams oedd wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chi i gyd fel teulu.

Yn ysbyty Gwynedd ar 23 Tachwedd, bu farw Mrs G. Mary Jones, 4 Rhes Glanogwen, yn 85 oed. Priod Mr Eric Wyn Jones, mam hoffus Geraint a Gareth, a mam-yng-nghyfraith Rhiannon. Nain garedig Nia, Nerys, Lliwen, Dewi a Dylan, a hen nain a chwaer annwyl. Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Gwener 28 Tachwedd, gyda gwasanaeth yn Amlosgfa Bangor. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd fel teulu.

Diolchiadau

Mrs Vera Williams

Dymuna Carol, Richard a theulu y ddiweddar Vera ddatgan eu diolch cywiraf i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain annwyl iawn. Diolch am y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof am Vera i gartref Plas Ogwen, Bethesda. Diolch yn arbennig i'r Parchedig Huw J. Hughes a'r Parchedig Gwyndaf Richards am y gwasanaeth teimladwy ac i'r Ymgymerwr Stephen Jones am ei drefniadau.

Mrs Mair Sullivan

Dymuna holl deulu y ddiweddar Mrs Mair Sullivan, Glanogwen ddiolch o galon i bawb am eu cydymdeimlad tuag atynt mewn amser trist iawn o golli mam, nain a hen nain annwyl iawn. Diolch am y galwadau, cardiau a rhoddion a fu’n gymorth iddynt yn eu profedigaeth.

Mrs Nance Owen

Dymuna Mrs. Nance Owen, 8 Rhes William, ddiolch i bawb am y cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

Vera Morgan

Dymuna Vera Morgan, Plas Ogwen, ddiolch i’r plant am wneud diwrnod ei phen-blwydd yn 80 oed yn un i’w gofio. Diolch hefyd i’r teulu a ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion. Diolch yn fawr iawn i bawb am wneud y diwrnod yn un arbennig.

Cassie Thomas, Bryntirion

Dymuna Phil. Carys, Ffion a Llinos ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a’u cydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, mam-yng-nghyfraith a nain annwyl a charedig. Diolch am y swm anrhydeddus a dderbyniwyd er cof amdani tuag at Tŷ Gobaith ac i bawb yng Nghaffi Coed y Brenin; hefyd i Gareth Williams am ei gymorth caredig a’i drefniadau trylwyr.

Clifford Smith, Paul ac Eleri

Dymuna holl deulu’r ddiweddar Betty Wyn Smith diolch o galon i bawb, yn deulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth fawr o golli gwraig, mam a nain annwyl. Diolch i bawb am y cardiau a’r geiriau caredig ac am y casgliad o £420 i ward Dulas. Diolch yn fawr iawn.

Emlyn Evans

Dymuna Eileen, Dafydd a Morfudd a’u teuluoedd ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniwyd ganddynt o golli gwr, tad, taid a hen daid annwyl. Yr ydym yn gwerthfawrogi’r holl gardiau, llythyrau, ymweliadau a galwadau ffôn. Diolch am y rhoddion hael fydd yn cael eu rhannu rhwng Apêl Eleanor (£1,000), Capel Jeriwsalem (£100), Eisteddfodd Dyffryn Ogwen (£100) a Llais Ogwan (£100). Diolch yn arbennig i’r Parchedig Pryderi Llwyd Jones am gymryd y gwasanaeth yn y Capel a’r Amlosgfa, i Gwerfyl Pierce Jones, T Alun Williams a Griff Charles Morris am eu teyrngedau diffuant ac i Menai Williams a Wynn Williams am ganu'r organ. Diolch hefyd i Annwen Briggs am baratoi'r arlwy, ac i Mannon, Joanna, Jeni a Llinos am helpu. Yn olaf diolch i Gareth Williams yr ymgymerwr am ei waith trylwyr.

Eglwys Crist, Glanogwen

Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:

Sul Cyntaf pob mis
Cymun Bendigaid – 8.00am
Boreol Weddi – 11.00am

Ail a thrydydd Sul pob mis - Cymun Bendigaid Cymraeg – 11.00am
Pedwerydd Sul pob mis - Cymun Bendigaid dwyieithog – 11.00am
Pumed Sul - Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandygái a Phentir (Lleoliad i’w gyhoeddi)

Pob bore Mercher am 10.30am - Cymun Bendigaid

Gwasanaethau Nadolig

Dydd Sul, 21 Rhagfyr - Naw Llith a Charol – 11.00am
Noswyl Nadolig, Rhagfyr 24 - Gwasanaeth y Preseb. Bydd croeso mawr i’r plant. 4.00pm
Rhagfyr 24 - Cymun Bendigaid Noswyl Nadolig – 9.00pm
Dydd Nadolig, Rhagfyr 25 - Cymun Bendigaid – 10.00am

Dewch yn llu i gyd-addoli yn Eglwys Glanogwen dros Ŵyl y Nadolig. Dymunwn Nadolig Hapus a Blwyddyn Newydd Dda a Bendithiol i bawb o fewn ein bro weinidogaethol

Mae nifer o aelodau yn cwyno oherwydd amrywiol anhwylderau. Dymunwn adferiad llwyr a buan i chwi gan fawr obeithio y byddwch cyn hir yn medru mynychu rhai o’r gwasanaethau.

Pen-blwydd

Ar 19 Tachwedd dathlodd Ian a Laura Adams, 32 Abercaseg, eu pen-blwydd yn 21 mlwydd oed. Maent yn dymuno diolch i bawb am yr holl gardiau a’r anrhegion a gawsant ar eu diwrnod mawr.

Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Tecwyn Williams, Stad Coetmor, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 80 oed ar 20 Tachwedd. Dathlodd yr achlysur gyda’r teulu yn y Straits, Porthaethwy. Dymuniadau gorau i chi ar yr achlysur arbennig hwn.

Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Ffion a Lee ar eu dyweddiad. Cariad mawr, Mam, Dad, Llinos a Darren, Rhes Douglas.

Dymuna Ffion a Lee ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur eu dyweddiad.

Cyfarchion Nadolig

Eleni ni fydd Joe Evans, 10 Glanffrydlas, yn anfon cardiau Nadolig ond mae’n dymuno Nadolig dedwydd a hapus a blwyddyn newydd dda i’r teulu, cyfeillion a chymdogion.

Ffyddllondeb

Dymuna Karen a holl staff Caffi Coed y Brenin, Bethesda ddiolch i bawb o’u cwsmeriaid sydd wedi bod yn ffyddlon iawn ar hyd y flwyddyn ac yn cefnogi’r caffi a’r fenter yn eu gweithgareddau.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Ffion a David, Glanogwen ar enedigaeth eu merch fach, Mali Efa, a aned ar y diwrnod olaf o Dachwedd. Llongyfarchiadau hefyd i nain a thaid Carneddi, nain a thaid Gerlan a nain a thaid Amlwch.

Colli Cymwynaswr

(Teyrnged gan ei gymydog a’i gyfaill Griff Charles Morris)

Cyn dod i fyw i Fethesda ym mis Ionawr 1965 roeddwn yn ymwybodol fod Emlyn Evans yn arloesi trwy argraffu llyfrau megis Cyfres Crwydro’r Siroedd, Cylchgrawn Barn ac ati. Gallwch ddychmygu felly ein llawenydd o ddeall ei fod ef a’i briod yn dod i ymuno â ni yn Rhos y Nant.

Roedd yn hawdd gwneud ffrindiau gydag Emlyn ac Eileen ac fel yr oedd rhagor o blant yn cyrraedd y ddau gartref roedd ein cyfeillgarwch yn dyfnhau. Credaf fod y fagwraeth gafodd Dafydd a Morfudd ar yr aelwyd yn Llwyn Meurig yn waelodol i’w parodrwydd i wasanaethu eu cymdeithas.

Dros y blynyddoedd bu Emlyn yn barod ei gymwynas â ni fel teulu, roedd yn gwmniwr difyr ac roedd croeso ar yr aelwyd yno bob amser. Roedd gennym lawer o ddiddordebau yn gyffredin a byddem yn cyfarfod yn gyson mewn gwahanol gyfarfodydd. Roedd Emlyn yn addysgwr wrth reddf, roedd bob amser yn awyddus i rannu rhyw wybodaeth neu'i gilydd. Roedd o’n barchus iawn o’i wrandawyr. Wrth gyflwyno rhyw ffaith fyddai’n gwbl ddieithr i ni fe fyddai’n ychwanegu’r cymal ‘fel da chi i gyd yn gwybod’.

Gwnaeth Emlyn gyfraniad enfawr i fywyd diwylliannol Bethesda. Bu’n amlwg gyda’r Eisteddfod fel aelod o’r pwyllgor ac fel un o dîm fu’n arwain y cyfarfodydd am flynyddoedd lawer gyda’i gyfeillion Dafydd Orwig ac Alun Ogwen. Roedd Capel Carneddi wedi chwarae rhan bwysig ym magwraeth Emlyn a mawr oedd ei ofal am yr achos fel blaenor ac ysgrifennydd. Parhaodd ei ofal a’i gonsyrn wedi sefydlu’r Eglwys Unedig. Bu’n deyrngar iawn i’w enwad ond ar yr un pryd yn ddigon eangfrydig i fynychu gwasanaethau Eglwys Glanogwen ar foreau Mercher.

Dros y blynyddoedd bu Emlyn yn ysgrifennydd Clwb y Pentan ym Methesda. Roedd ei ffyddlondeb i’r Clwb yn gant y cant. Pan ddaeth llesgedd i’w rwystro rhag mynychu yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf roedd hyn yn ofid mawr iddo a holai’n fynych am yr hyn oedd yn mynd ymlaen. Yn ychwanegol at drefnu’r cyfarfodydd fo hefyd oedd yn gofalu am y ‘baned’ ac yn y cyfarfod cyn y Nadolig byddai Emlyn wedi gofalu am y mins peis ar ein cyfer, wedi eu darparu wrth gwrs gan ei briod hawddgar Eileen. Hi a fu’n gefn iddo ar hyd y blynyddoedd; a hi a Morfudd a ofalodd yn dyner amdano hyd y diwedd.

Bu Emlyn yn un o olygyddion Llais Ogwan ac roedd yn gofalu bod ar gael ar noson plygu’r Llais. Doedd dim gorchwyl yn rhy isel ganddo i’w chyflawni. Lawer tro gwelais ef yn cyrraedd adref yn y car ac os oedd wedi sylwi ar ddarn o sbwriel wedi ei ollwng ar y ffordd, yn cerdded yn ôl a’i godi i’w roi yn y bin.

Roedd nifer o bobl yn troi ato am gymorth i lenwi rhyw ffurflen neu’i gilydd neu i geisio geirda wrth wneud cais am swydd. Yn amlwg roedd pobl yn parchu ei farn. Roedd ganddo lawysgrif hyfryd oedd yn ychwanegu at y pleser o dderbyn nodyn neu lythyr oddi wrtho. Roedd Emlyn bob amser wrth law os oedd angen mynegi diolch neu werthfawrogiad ar ddiwedd cyfarfod.

Roedd Emlyn wedi etifeddu cariad ei rieni at gerddoriaeth a byddai wrth ei fodd yn cymryd rhan mewn partïon a chorau yn Nyffryn Ogwen a Bangor. Pan oedd yn fachgen mae’n debyg fod Williams Parry wedi dweud wrth Emlyn mai yn ein llyfr emynau y ceid y Gymraeg ar ei gorau. Dyna’r rheswm iddo feistroli cymaint o emynau ar ei gof - hyd yn oed rifau’r emynau.

Am nifer o flynyddoedd bu Emlyn ac Eileen yn garafanwyr brwd gan grwydro Cymru a Lloegr. Os byddai wedi bod yn agos i Eglwys Gadeiriol byddai wedi manteisio ar y cyfle i fynychu gwasanaeth yno. Roedd yn hoff iawn o Sir Benfro - dim rhyfedd ei fod mor barod i ‘wneud y pethau bychain’.

Fe fu Emlyn yn llwyddiannus mewn pedair gyrfa. Yn gyntaf yn y diwydiant trydan yn Llundain, yna fel Rheolwr Llyfrau’r Dryw yn Llandybie, wedyn fel athro yn Ysgol Syr Huw Owen, Caernarfon. A phan oedd ei gyfoedion yn paratoi i ymddeol fe aeth Emlyn yn Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasg Gee, Dinbych. Roedd Emlyn yn berson o argyhoeddiad ac yn barod i sefyll dros ei egwyddorion. Mae’n wir iddo orfod wynebu rhai siomedigaethau - ond drwy’r cwbl wnaeth o ddim chwerwi. Rai blynyddoedd yn ôl gwnaed Emlyn yn Gymrawd Anrhydeddus o Brifysgol Bangor, a hynny yn gwbl haeddiannol. Anrhydedd arall a ddaethai i’w ran oedd cael ei dderbyn i Orsedd y Beirdd yn Eisteddfod Maldwyn.

Fe fu’n gyfrifol am argraffu nifer fawr o lyfrau Cymraeg ac roedd graen ar y gwaith bob amser. Roedd ef ei hun yn awdur dau lyfr. Mae ‘O’r Niwl a’r Anialwch’, sy’n rhannol hunangofiannol, yn bwrw golwg dros gefndir crefyddol, diwylliannol a chymdeithasol Dyffryn Ogwen o ddechrau’r ganrif ddiwethaf hyd yr Ail Ryfel Byd. Casgliad o erthyglau o’i waith a geir yn yr ail gyfrol sef ‘Rhwng Cyfnos a Gwawr’. Mae’r gyfrol honno yn cyfleu mor eang oedd diddordeb Emlyn mewn hanes.

Cyfeiriais eisoes at gychwyn y cylchgrawn ‘Barn’. Fe fu Emlyn hefyd yn cydolygu’r cylchgrawn ‘Y Genhinen’ gyda’r Parch W. Rhys Nicholas am dros ddeg mlynedd. Does gan yr un ohonom yr hawl i ddewis ein cymdogion ac wrth edrych yn ôl dros yr hanner canrif ddiwethaf gallaf ddweud yn gwbl onest i ni fod yn eithriadol o ffodus yn ein cymdogion yn Rhos y Nant.

Mae ein cydymdeimlad llwyraf gydag Eileen, Dafydd a Morfudd a’u teuluoedd. Diolch am gael cyfle i adnabod Emlyn a diolch am ei gyfraniad i’r Ardal yma ac i Gymru gyfan.

Yr Eglwys Unedig

Dechreuwyd y mis gyda mawl ‘Diolchgarwch’ gan blant yr Ysgol Sul. Cawsom fwynhau eu cyflwyniad i’r eithaf a gwnaethpwyd casgliad o £150 tuag at Cymorth Cristnogol. Diolchwn am bob cefnogaeth ac i’r athrawon am y lluniaeth blasus.

Cofiwn am yr holl aelodau a chyfeillion sydd yn dioddef o unrhyw anhwylderau ac yn cael trafferth i bresenoli eu hunain yn yr oedfaon. Gwyddom fod Glenys Clark yn parhau yn yr ysbyty ac y mae Jean Ogwen Jones a Betty Roberts hefyd yn derbyn triniaeth feddygol ar hyn o bryd. Dymunwn wellhad buan iddynt i gyd ac anfonwn ein cofion cywiraf atynt.

Profedigaeth

Tristwch o’r mwyaf yw datgan ein bod wedi colli un o ‘hoelion wyth’ yr eglwys y mis hwn, sef y Bon. Emlyn Evans. Cydymdeimlwn yn ddwys â’r Fon. Eileen Evans, Dafydd, Morfudd a’r teulu i gyd gan gynnwys Olwen, eu ffrind. Rhoddwyd teyrnged wych iddo gan Ceri yn ei chyhoeddiadau ar fore’r 16eg. Yn ogystal, cawsom ddathlu ei fywyd tra diwylliedig ar fore’r 22ain.

Cyfarfod gweddi

Ar y 4ydd o’r mis cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi ar y thema ‘Cariad’ gan Jean gyda Joe a Megan yn cynorthwyo i gyfeiliant Gwenno.

Cynhaliwyd seiadau’r mis dan arweiniad y Parchedig John Owen.

Cymdeithas Jerusalem

Cynhaliwyd cyfarfod o’r Gymdeithas ar y 13eg dan lywyddiaeth Minnie. Y gŵr gwadd oedd y Bnr Geraint Jones, Trefor. “John Preis y Tramp”, oedd testun ei sgwrs, ac fe gafwyd noson o fwynhad yn llawn chwerthin a syndod hefyd! Roedd Elina Owen yn dal i chwerthin hefo Geraint ar ddiwedd y noson!



Geraint Jones ac Elina Owen

Rhoddwyd cyflwyniad diddorol iddo gan Elina a’r diolchiadau gan Ieuan Wyn. Gan fod y gŵr gwadd yn un llawn hiwmor, bu hon yn noson bleserus a hwyliog a phawb wedi llwyr fwynhau.

Diolchwn i’r ieuanc sydd mor weithgar yng Nghlwb Nos Fawrth ac er gwybodaeth mae basgedi ar gyfer y Banc Bwyd wedi eu rhoddi yn y ddau gyntedd. Estynnwn longyfarchion i Myfanwy Jones, Gwernydd ar ddod yn hen nain unwaith eto.

Gwasanaethau i ddod.

Rhagfyr 21 Mrs Eirlys Williams (10.00)
Gwasanaeth Cymunedol Nadolig (7.00)
Rhagfyr 25 Bore Nadolig, Cymun am 9.30.
Rhagfyr 28 Oedfa yn y bore yn unig, dan ofal yr aelodau.

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub
LL57 3LW
☎ **601880**

Clwb yr Henoed
Mwynhaodd aelodau'r Clwb ginio Nadolig ardderchog yng Nghaffi Coed y Brenin ar 1 Rhagfyr. Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer y tymor yma; Llywydd/ Ysgrifennydd – Ceinwen Hughes; Is Lywydd – Medi Williams; Trysorydd - Margaret Owen. Gobeithio fod Medi'n gwella ar ôl iddi gael codwm go gas. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 14 Ionawr. Cofiwch fod y gystadleuaeth Sgwâr Lwcus yn dal i fynd. Prynwch sgwâr pan gewch gyfle.

Llongyfarchiadau
i Ellen, merch Derek a Jean, Maes Bleddyn. Enillodd Ellen radd M.A. Addysg (Arweiniaeth a Rheolaeth) dan nawdd y Brifysgol Agored yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr iddi oddi wrth y teulu i gyd a dymuniadau gorau am y dyfodol.

Ysbyty
Anfonwn ei dymuniad am wellhad buan i nifer sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty'n ddiweddar. Yn eu plith mae Mrs Beti Williams, Bryn Owen ag Alys Bryn, Stryd Tanrallt. Anfonwn ein cofion at bawb yn ardal sydd heb fod yn dda.

Cyfarchion Nadolig
Mae Gwilym Rees Evans, Ceunant, Llanllechid am ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn newydd dda i'w holl deulu, cymdogion a ffrindiau.

Diolch
Dymuna Mrs Beti Williams, Bryn Owen ddiolch yn fawr i'w theulu a'i ffrindiau am yr holl gardiau, y blodau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra'n derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.


Dymuna Gwen, Nerys a John a'r teulu ddiolch yn garedig am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniwyd ganddynt yn eu profedigaeth o golli mam, Mrs Megan Hughes, mam, nain a modryb annwyl a charedig. Llawer o ddiolch am y swm anrhydeddus a dderbyniwyd er cof am Megan ac a rannwyd rhwng elusennau lleol.

Cydymdeimlo
Yn frawychus o sydyn yn Ysbyty Gwynedd ar 22 Tachwedd bu farw Bethan Wynn Jones, 51 Maes Bleddyn a hithau ond yn 48 mlwydd oed. Cynhaliwyd yr angladd yng Nghapel Carmel ar 1 Rhagfyr dan ofal y Parch Dafydd Coetmor Williams. Cydymdeimlwn

yn fawr gyda David ei gŵr, y plant Mathew a Kimberley a'r wyres Tilla yn eu colled enfawr.

Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at Alwyn Jones, Racca, Penisarwaen, ar yr achlysur trist o golli ei wraig, Sera. I ni yn Rachub adwaenem ni hi fel 'Sera Edwards Siop Jac' neu 'Sera Pen-lôn.' Chwith meddwl fod un arall o gymeriadau Rachub wedi ein gadael mor ddirybudd yng nghanol mis Tachwedd.

Gwella
Gobeithio fod Derek Hughes, Maes Bleddyn yn gwella wedi iddo yntau gael codwm yn ei gartref yn ddiweddar. Anaf go ddrwg i'w ysgwydd a dderbyniodd.



Carmel, Llanllechid Trefn Gwasanaethau

Trefn Gwasanaethau Rhagfyr
21 Gwasanaeth Nadolig 5.00
25 Gwasanaeth Bore Nadolig 9.30
28 Carolau 5.00

Ionawr
04 Ein Gweinidog 5.00
11 Y Parch. Ddr D. W. William 2.00
18 Y Parch Dewi T. Morris 2.00

Ysgol Sul 10.30
Dwylo Pysur, Nos Wener 6.30.

Ar 1 Ionawr byddwn fel Eglwys yn dechrau pennod newydd dan weinidogaeth ein gweinidog newydd, sef y Parchedig D. John Pritchard, Llanberis. Chwi aelodau, dewch i'r oedfa ddydd Sul, 4 Ionawr am 5.00 i gyfarfod ag o.

Croeso cynnes i bawb

Carmel

Gwasanaeth y Plant a Phobl Ifanc

Rhagfyr 21 am 5 o'r Gloch

'Yr Anrheg Gorau'

Croeso Cynnes i Bawb. Bydd casgliad tuag at waith Cymorth Cristnogol a'r Ysgol Sul.

Carmel

Gwasanaeth Bore'r Nadolig
Am 9.30 yng Ngharmel

Croeso Cynnes i Bawb Dewch i Ddathlu Geni'r Iesu gyda Ni.

Capel Carmel

Clwb Dwylo Pysur



Yn ystod y ddau fis diwethaf bu aelodau'r clwb yn casglu arian tuag at 'Cymorth Dŵr.' Elusen yw hon sy'n ceisio sicrhau dŵr glân i gymunedau tlotaf y byd. Llenwi model o ffynnon gydag arian mân oedd y nod a llwyddwyd i gyrraedd cyfanswm o £50 at y gronfa. Mae'r llywodraeth yn dyblu'r swm ac felly mae'r gronfa ar ei hennill o £100.

Yr Ysgol Sul
Cyda'r Nadolig ar y trothwy mae prysurdeb mawr o fewn yr Ysgol Sul wrth i bawb baratoi ar gyfer Gwasanaeth Nadolig y Plant a'r bobl ifanc ar nos Sul 21 Rhagfyr. Dyma lun o'r doethion brwdfrydig sy'n eich gwahodd i ddod i'r gwasanaeth i'w gwyllo yn actio a chanu.



William, Dai a Gwion yn eu gwisgoedd lliwgar.

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ **600853**

Colli Simon
Drwg oedd clywed am farwolaeth sydyn Simon Williams, Penmaenmawr, gynt o 69 Bro Emrys, Talybont, yn Ysbyty Walton, Lerpwl ar 12 Tachwedd. Roedd Simon yn 34 mlwydd oed. Cydymdeimlwn â Beverley, ei wraig, Alun a Pauline ei fam a'i dad, chwiorydd, Manon a Hannah a'i frodyr, John, Adam, Luke, ei neiaint a'i nithoedd Murphy, Casi, Ellie, Ruby, Skye a Jacob, a Myfanwy, ei nain, o Cae Gwigin Talybont a'i holl ffrindiau. Daeth Simon i fyw i Dalybont pan oedd yn 4 oed, ac roedd yn fachgen poblogaidd a chyfeillgar. Fel postman, roedd hefyd yn boblogaidd gyda'i gwsmeriaid - llawer ohonynt yn ardaloedd Tregarth a Llanllechid.

Dymuna'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad, gan ddiolch hefyd i weithwyr y Post Brenhinol am eu cefnogaeth, yn arbennig yn angladd Simon.

Capel Bethlehem

Gweinidog Newydd, Cyfnod Newydd

Edrychwn ymlaen fel aelodau Bethlehem at groesawu’r Parchedig D. John Pritchard, B.A., B.D. (Cym.) i weinidogaethu arnom ar ddechrau’r flwyddyn newydd. Bryd hynny byddwn ni, ac Eglwys Carmel Llanllechid, yn ymuno â Gofalaeth Deiniolen a Llanberis, ble mae Mr Pritchard yn weinidog ar bump o eglwysi ers 1988. Cyn hynny bu’n weinidog ar bedair eglwys ym Mhen Llŷn o 1979 hyd at 1988. Byddwn yn croesawu ein gweinidog newydd i bulpud Bethlehem ar 11 Ionawr am 2 o’r gloch. Dewch i’w gyfarfod!

Oedfaon y Sul

Rhagfyr

21 Parchg. Euros Wyn Jones, Llangefni;
28 Dim Oedfa;

Ionawr

04 Parchg. W. H. Pritchard, Trearddur;
11 Y Gweinidog;
18 Parchg. Pryderi Llwyd Jones;
25 Gweinidog.


Oedfaon am 2.00 oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Ffair Nadolig

Diolch yn fawr i bawb am wneud ein Ffair Nadolig mor llwyddiannus ar 3 Rhagfyr. Diolch o galon i gyfeillion yr Achos ym Methlehem am eu cefnogaeth barod ac am eu haelioni. Gwnaed elw o £780.00.

Croeso ’nôl

Braf oedd medru croesawu Mrs. Jean Hughes, ein trysorydd gweithgar, i’r oedfa ar 7 Rhagfyr, wedi iddi fethu dilyn y moddion ers rhai wythnosau yn dilyn ei damwain. Pwyll pia hi rwan Jean!



Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ **601583**

Gwella

Rydym yn falch iawn o weld fod Liwsi Mô, Gwernydd, yn gwella wedi treulio cyfnod byr yn yr ysbyty. Pob dymuniad da am wellhad llwyr a buan iti, Liwsi.

Cydymdeimlad

Rydym yn cydymdeimlo’n fawr gyda Dafydd Môn a Bethan, Stryd y Ffynnon yn eu profedigaeth o golli ewythr Dafydd, y diweddar Bertwyn Rees Jones, oedd yn trigo ym Mhenygroes.

Hen nain

Rydym yn llongyfarch Myfanwy Jones, Gwernydd, am ddod yn hen nain unwaith eto. Ganed mab bychan, Gwion Dafydd, i’w hŵyr, Gareth, a’i gymar, Nia, sy’n byw ym Mhorthaethwy. Llongyfarchiadau mawr i chi, Myfanwy, a dymuniadau gorau i’r teulu i gyd

Cydymdeimlad

Yn ddiweddar cafodd Joan Edwards, Glanrafon, a’r teulu y brofedigaeth o golli aelod o’r teulu, sef y diweddar Vera Williams, Ystâd Coetmor. Rydym yn meddwl amdanoch fel teulu yn eich colled.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Siôn Glyn ac Elin, Gwernydd, ar enedigaeth merch fach, Mali Glyn. Rydym yn dymuno’r gorau i’r teulu bach i’r dyfodol

Profedigaeth

Rydym yn cydymdeimlo gyda Angela Davies a’r teulu, Rallt Isaf, yn eu profedigaeth o golli chwaer yng nghyfraith Angela, y diweddar Bethan Jones, oedd yn byw ym Maes Bleddyn

Cofion

Rydym yn gyrru ein cofion at bawb yn yr ardal, yn enwedig y rhai hynny nad ydynt yn dda eu hiechyd, ac yn dymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Mwynhewch y gwyliau!

Eglwys Maes y Groes Talybont

Te Nadolig
Cynhaliwyd Te Nadolig yn Ysgoldy Maes y Groes ar Sadwrn, 29 Tachwedd. Braf oedd gweld cymaint yn bresennol ar y diwrnod. Hoffai Phyllis ddiolch i bawb am eu cefnogaeth, ac am yr anrhegion tuag at y raffl a’r stondinau. Derbyniwyd rhoddion hael hefyd ac fe wnaed elw ardderchog o £716.00. Diolch o galon.

Gwasanaeth Undebol
Ar y Sul olaf o fis Tachwedd mynychwyd gwasanaeth undebol yn Eglwys Sant Tegai. Diolch i’r aelodau am eu croeso, ac am y lluniaeth ysgafn ar ôl yr oedfa.

Gwasanaeth Carolau
Estynnir croeso cynnes i bawb sydd yn dymuno dod i’n Gwasanaeth Carolau a gynhelir am 11 o’r gloch fore Sul, 21 Tachwedd.

Glasingfryn Caerhun

Marred Glynn Jones
2 Stryd Fawr, Glasingfryn, Bangor
LL57 4UP **01248 351067**
Marred567@btinternet.com

Nadolig Llawn iawn i holl ddarllenwyr y Llais yng Nglasingfryn, Waen Wen a Chaerhun. Mwynhewch y gwyliau a diolch i chi am gefnogi Llais Ogwan. Cofiwch anfon eich newyddion ata i yn ystod 2015!

Colli Cymdoges

Trist yw cofnodi, fel mae’r Llais yn mynd i’r Wasg, marwolaeth sydyn Mrs Beryl Williams, Tyddyn Heilyn, Caerhun. Daw teyrnged lawn iddi yn y rhifyn nesaf ond yn y cyfamser cydymdeimlwn yn fawr iawn â David a Carol, a’i hwyron Huw ac Eluned a’r teulu oll yn eu tristwch a’u galar o golli un mor annwyl.

Y Ganolfan

Mae’r Ganolfan yng Nglasingfryn (dilynwch y ffordd i fyny heibio’r Hen Ysgol) yn lle ardderchog i gynnal digwyddiad. Mae’n neuadd fechan, glyd wedi’i charpedu! Mae cegin yno hefyd a thŷ bach. Mae nifer o ddosbarthiadau yn cael eu cynnal yno eisoes:
Llun 11.00-12.30 Ioga
Mawrth 10.30-3.30
Gwnïo/Brodwaith
Nos Fawrth 6.00-7.00 Tai Chi / Qigong
Gwener 10.00-1.00 Arlunio

Mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno ag un o’r dosbarthiadau hyn. Mae nifer o bartïon hefyd yn cael eu cynnal yn y Ganolfan. Os hoffech chi logi’r Ganolfan ar gyfer unrhyw ddigwyddiad,

cysylltwch â Thrysorydd Pwyllgor Rheoli’r Ganolfan sef Mrs Mair Griffiths ar 01248 352966. Mae’r pris ar gyfer llogi’r Ganolfan yn hynod o resymol. Mae cadeiriau a byrddau hefyd ar gael i’w llogi ar gyfer digwyddiadau yr hoffech chi eu cynnal y tu allan i’r Ganolfan.

Clwb Cant y Ganolfan

Yr enillwyr ar gyfer mis Tachwedd yw:
£20 – 98 - Fiona Davies
£10 – 90 - Jan Sandham
£5 – 43 - Eirwen Orwig

Bingo Nadolig

Bydd Bingo Nadolig yn cael ei gynnal yn y Ganolfan nos Wener 19 Rhagfyr gyda’r elw yn mynd tuag at y Ganolfan. Dewch yn llu, mi fydd luniaeth i’w fwynhau a thombola ! Mae’r noson yn dechrau am 7.00 yr hwyr.

Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd ein cyfarfod blynyddol ar Dachwedd yr 8fed. Cafwyd amryw o ymddiheuriadau a darllenwyd cofnod o gyfarfod mis diwethaf gan Ingrid. Diolchodd hefyd i bawb am gyfrannu cacennau at y ffair grefftau ym Mhorthmadog.

Llongyfarchwyd Margaret Hughes am gael tair gwobr gyntaf a hefyd eraill a dderbyniodd wobrau am eu cynigion. Da iawn chi a llongyfarchiadau!

Derbyniwyd yr adroddiad ariannol gan Christina ac adroddiad y Llywydd gan Sarah. Llongyfarchwyd Mair ar ddod yn nain am y tro cyntaf a Mrs Muriel Pritchard yn hen Nain am y 15fed tro (gwaith cofio penblwyddi Mrs Pritchard!!)

Dymunwn longyfarch Huw a Siân ar enedigaeth Lydia Gwen a phob hwyl Nain a Taid (Mair a Jim) ar y gwarchod. Dwi’n gwybod i chi wirioni a pham lai?! Llongyfarchwyd Margaret a Gerallt ar ddathlu hanner can mlynedd o fywyd priodasol. (Aur !)

Mae Margaret Griffiths yn Ysbyty Eryri a Janet Rees yn ysbyty Royal Free Llundain. Cofion atynt a dymuniadau gorau am wellhad buan.

Lesley Wykes o sefydliad Dwygyfylchi ddaeth atom i sgwrsio am ddathliadau’r Ffederasiwn 2015 ar gyfer y canmlwyddiant:
Ar 4ydd o Fehefin - Cineworld Llandudno, cyfarfod blynyddol yn cael ei ddarparu’n fyw o Lundain. 20 Fehefin - taith efo trên i fyny’r Wyddfa (ac amryw bethau eraill) i’w trefnu.
Ni fu fawr newid ymysg y swyddogion, dim ond Ingrid fydd ysgrifennydd y cofnodion. Diolchodd Mair i bawb am ddarparu bocsus Operation Christmas Child a diolchwyd iddi hi a Glenys am ddarparu’r te.
Enillwyd y raffl gan Christina.

Llandygái

Ethel Davies, Pennard,
Llandygái ☎353886

Gwaeledd.

Roeddem yn drist iawn pan glywsom fod Dian Hughes, Drws y Coed, Parc Penrhyn wedi cael ei rhuthro i Ysbyty Gwynedd ar ôl cael trawiad ar y galon. Bu’n wirioneddol wael am ddyddiau ond mae’n gwella ychydig bach erbyn hyn. Bu’n amser pryderus iawn i Emyr a’r meibion a brysiwch wella Dian. Mae pawb yn y pentref yn holi amdanoch ac yn anfon eu cofion anwylaf atoch.

Roeddem oll yn falch o glywed fod Moyra Muir, Y Garn, Bryn Dymchwel yn gwella ar ôl y llawdriniaeth a dderbyniodd yn ddiweddar a’i bod wedi dechrau codi allan. Fe’i gwelwyd yn cerdded o gwmpas y pentref unwaith yn rhagor ac yn edrych yn dda. Mae pawb yn cofio atoch ac yn dymuno llwyr wellhad i chi.

Anfonwn ein cofion anwylaf at Joy Radcliffe sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd wedi iddi anafu ei phen glin wrth ddod o’r car y tu allan i Eglwys y Gelli ar fore Sul y Cofio. Roeddem oll yn falch pan glywsom gan Alan ei gŵr ei bod gartref erbyn hyn. Er hynny rydym yn teimlo braidd yn euog gan mai gwneud tro da yn rhoi lifft i Nerys a minnau i’r gwasanaeth oedd hi pan gafodd ei hanaf. Brysiwch wella Joy!

Anfonwn ein cofion a’n dymuniadau da i Jane Couch, Gwyn Edwards, Harry Gross, Jackie Williams, Audrey McSorley, Ben Grant, Charlie Stevens, Dian Hughes a Siân Evans. Byddwn yn meddwl amdanoch dros yr Ŵyl.

Rydym yn meddwl hefyd am y rhai sydd wedi bod yn wael ers tro bellach sef Ernie a Nerys Coleman, Beryl a Jim Hughes, Dr Pam Jones, Olwen Latham, Cassie Tindall, Betty Williams a Dorothy Proudley Williams. Gobeithio y cewch i gyd Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda.

Parti Nadolig y Bobl Hŷn Gobeithio bod trigolion Talybont a Llandygái wedi mwynhau eu hunain yn y parti Nadolig ar brynhawn Mawrth, 16 Rhagfyr yn Neuadd Talgai. Diolch o galon i bawb fu’n trefnu popeth yn arbennig y rhai fu’n brysur yn paratoi’r bwyd a’r rhai fu’n gweini yn ystod y pnawn.

Ffair Nadolig Ysgol Llandygái Bydd yr uchod wedi bod erbyn i’r rhifyn hwn o’r Llais ymddangos ond gobeithio i Ysgol Llandygái fwynhau llwyddiant mawr ar 5 Rhagfyr pan gawsant eu Ffair Nadolig. Mae’n siŵr i’r plant fwynhau eu hunain a gobeithio bod Santa Clos wedi darganfod yr ysgol ac iddo fod yn hael eto gyda’i anrhegion.

Eglwys Sant Tegai

Marwolaeth

Ar 15 Tachwedd yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mrs Dilys Chapman, 21 Llys Dewi Sant, Bangor yn 89 mlwydd oed. Gwraig y diweddar Arthur Chapman a mam hoff John a Colin a’u gwragedd Carol a Jill a nain a hen nain annwyl i’r plant. Cynhaliwyd y gwasanaeth ddydd Llun, 24 Tachwedd yn Eglwys Sant Tegai gyda’r Parchedig John Matthews yn gwasanaethu a’r gladdedigaeth ym Mynwent Newydd Bangor. Cydymdeimlwn gyda John a Carol, Colin a Jill a’r teulu oll yn eu profedigaeth chwerw.

Stondin Dorothy

Diolch o galon i Dorothy ac aelodau eraill o’r eglwys a fu’n cynorthwyo ar y stondin yng Nghanolfan Deiniol ar Ddydd Sadwrn 23 Tachwedd a gwneud elw o £107 i’r eglwys.

Gweithgareddau Nadolig

Diolch i Eglwys Tregarth am eu croeso i’r Te Bach ar 18 Tachwedd. Cafwyd amser ardderchog a’r teisennau fel arfer yn flasmus iawn. Diolch arbennig i Raymond gan mai ef oedd yn gyfrifol am y teisennau, y baned a’r gweini.

Roedd pnawn Sadwrn 29 Tachwedd yn yr Ysgoldy yn brysur iawn i aelodau Maes y Groes ond yn bleser i’r gweddill ohonom. Diolch o galon am y croeso cynnes a’r te rhagorol. Deallwn hefyd fod yr elw’n rhagorol.

Pen-blwyddi.

Dymunwn ben-blwydd hapus i’r canlynol:-
Erin Jones, 4 Pentre Llandygái gynt, yn 45 mlwydd oed ar y 1 Ionawr.
Jacob, ŵyr bach Liz a Martin, yn 3 mlwydd oed ar 28 Rhagfyr.
Hannah Louise yn 4 mlwydd oed ar 8 Ionawr.
Ŵyr Hefin a Brenda yn 5 mlwydd oed ar 8 Ionawr.
Llawer o hwyl i chi i gyd a gobeithio y cewch lond trol o anrhegion.

Gwasanaeth Undebol

Fore Sul, 30 Tachwedd cynhaliwyd ein gwasanaeth yn Eglwys Sant Tegai gyda’r Parchedig John Matthews yn gwasanaethu a Geraint Gill ar yr organ. Diolch yn fawr i’r ficer ac i’r aelodau o dair eglwys a gymerodd ran yn y gwasanaeth ac i bawb oedd yn bresennol. Diolch i Nerys a’r merched am y lluniaeth ysgafn yn Neuadd Talgai.

Gwasanaethau’r Nadolig

Nos Sul 21 Rhagfyr – Gwasanaeth Naw Llith a Charolau am 5.00 o’r gloch yr hwyr.
Noswyl Nadolig – Yr Offeren am 11.15 yr hwyr.
Bore Sul 28 Rhagfyr - Gwasanaeth ar y cyd yn Eglwys Maes y Groes am 10.30 y bore.

Sefydliad y Merched, Llandygái

Daeth yn amser unwaith eto i gynnal y cyfarfod blynyddol ar nos Fercher, 26 Tachwedd.
Rhoddodd Eira groeso i bawb a chroesawodd Mrs Pat Jones atom.


Daeth sawl ymddiheuriad am absenoldeb i law.

Darllenodd Eirlys gofnodion cyfarfod blynyddol 2013, ac Eira lythyr y ffederasiwn, gan nodi a thrafod ei gynnwys.

Cyflwynwyd yr adroddiad ariannol
Yn adroddiad y llywydd, diolchodd Eira am y gefnogaeth a gafodd yn ystod y flwyddyn, I Eirlys am ei gwaith fel ysgrifennydd a Val fel trysorydd. Bu’n flwyddyn lewyrchus gyda chyfarfodydd diddorol bob mis.

Yna cymerodd Pat yr awenau i ethol y llywydd. Penderfynwyd, ar ôl dadlau, fod pump i rannu’r swydd.
Rhoddodd Pat restr i ddigwyddiadau amrywiol iawn gerbron, wedi eu darparu gan y ffederasiwn i ddathlu pen-blwydd y sefydliad yn gant oed.

Diolchodd Beti i Pat am ei gwaith ac yna mwynhaodd pawb swper o gawl a gwin i ddiweddu’r noson.



Pentir

Anwen Thomas,
Min yr afon,
11 Rhydygroes, Pentir
☎ 01248 355686

Dechreuwn drwy ddymuno Nadolig Llawn i bawb gan edrych ymlaen at 2015 yn y gobaith bydd yr haul yn codi dros fynydd Moelyci!

Salwch

Yn anffodus diweddw’n 2014 gyda’r newyddion bod tair annwyl i ni ym Mhentir yn ddifrifol o wael ac yn wynebu sawl her yn ymwneud â’u hanhwylderau gwahanol.
Mae Mrs Averill Thomas, Yr Alban, Rhyd y Groes yn sâl iawn ac yn derbyn gofal ardderchog gan ei merch Anwen a nyrsys arbenigol adre’. Maent yn ddiolchgar tu hwnt am yr holl gefnogaeth y maent yn ei dderbyn oddi wrth drigolion y fro. Rydym ni bentrefwyr Pentir yn meddwl yn barhaol amdanoch ym mhen pellaf Rhyd y Groes.
Mae Mrs Janet Rees, y Lodge hithau’n ddifrifol o wael ac yn derbyn gofal arbennig mewn ysbyty yn Llundain o dan adain ei theulu yno. Dymunwn y gorau iddi hi a’i gŵr Caradog Rees; ac mae’n meddyliau gyda hwy.

Yn yr un ffordd rydym yn meddwl am Brian, 8 Rhyd y Groes, a’r teulu wrth iddynt wynebu’r heriau sy’n dod gyda chyflwr Audrey McSorley a hithau ar hyn o bryd yn Ysbyty Eryri. Dymunwn iddi gael nerth i wella’n llwyr.

Rydym hefyd yn meddwl am Mrs Jennifer Hook, Orme Grove ar ôl i’w gŵr Mr Tony Hook adael y byd yma ar 24 Hydref. Rydym yn cydymdeimlo gyda hi yn ei galar.

Croeso

Rydym yn falch o estyn croeso cynnes i Alex Peate a’i gŵr o Lanfair Caereinion, Sir Drefaldwyn sydd newydd symud i’r Gorlan. Beth yw hyn? Mae Pentir yn dechrau llenwi gyda phobl o’r canolbarth gan mai o’r un ardal y daw Siân sydd wedi bod yn byw cyferbyn a hwy yn Nhŷ Uchaf ers ychydig. Yn yr un modd rydym yn falch o gael Karen a Jules yma a hwythau wedi bod yn byw ym Mryn Awel ers rhyw flwyddyn a hanner.

Mae rhai o’n pobl ifaine nôl ac ymlaen o’r pentref ar hyn o bryd. Dymunwn y gorau i Lewys Wyn, Ty’n Llwyn sydd ar ei ail flwyddyn yn astudio hanes ym Mhrifysgol Aberystwyth ac i Leah, Creigfryn, sy’n astudio Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol ym Mhrifysgol Caerefrog. Hyderwn fod Casi Wyn, Ty’n Llwyn, sydd yn astudio ym Mhrifysgol Queen Mary, Llundain bellach yn adnabyddus gan ddarllenwyr Llais Ogwen fel cantores ar ôl iddi hi ryddhau ei halbwm ‘1’ a recordio sesiwn gyda radio 1. Llongyfarchiadau iddi hi.

Rhiwlas

Iona Jones
17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎01248 355336

Clwb Rhiwen

Yn ein cyfarfod ar Dachwedd 5ed cawsom gwis diddorol a baratowyd ar ein cyfer gan Frances a Beryl. Jean a Dee ddaeth yn fuddugol a rhoddwyd gwobr iddynt gan Frances. Jean a Dilys oedd yn gyfrifol am y baned.

Ar Dachwedd 19eg fe aethom draw i Fron Goch. Roedd yn hynod o brysur yno a’r addurniadau Nadolig yn werth eu gweld.

Merched y Wawr

Llywyddwyd cyfarfod Mis Tachwedd gan Carys a chafwyd ymddiheuriadau gan Annes, Megan, Nia, Einir a Carol. Cyfeiriodd Carys ein sylw at erthygl yn rhifyn y gaeaf o’r Wawr lle cawn hanes Sioned Huws sy’n ddawnswraig broffesiynol. Magwyd hi ar fferm Tai Isaf, Pentir ac fe ddywed fod ei magwraeth ar y fferm wedi’i hysbrydoli ac yn sicr wedi ei harwain i fyd y ddawns.

Ein gŵr gwadd oedd Mr Alun Pritchard o Fodorgan. Eglurodd ei fod wedi ymddeol o’i swydd fel pennaeth Ysgol Corn Hir, Llangefni ac ers hynny wedi ymweld â gorllewin Kenya yn flynyddol ac yn cydweithio â phrosiect OMWABINI. Treuliodd naw wythnos yn y pentref eleni a hanes y cyfnod hwnnw a gawsom. Mae gan y Cenhedloedd Unedig restr o hawliau sylfaenol plant ac yn uchel ar y rhestr honno mae hawl pob plentyn i gael to uwch ei ben, bwyd maethlon a dŵr glan i’w yfed. Dyna yw ei ganllawiau wrth ymweld â’r pentref ac y mae’n cydweithio â’r wraig a gychwynnodd y prosiect yn 2002, a hi sy’n flaenoriaeth pa deuluoedd sy’n cael cymorth yn ystod ei ymweliad yno. Eleni cafodd deg teulu gymorth i adeiladu tŷ, cawsant gymorth i baratoi’r tir i dyfu cynydau a’r cam olaf oedd sicrhau cynllun i gael dŵr glan. Gyda chymorth y pentrefwyr mae wedi codi 58 o dai ac wedi llwyddo i gael deuddeg pistyll i sicrhau dŵr glan ers ei ymweliad cyntaf. Roedd y wên ar wyneb y plant yn dweud y cwbl. Ef sy’n gyfrifol hefyd am gasglu’r arian ar gyfer ei daith ac roedd ei brofiadau yn ein sobri. Diolchwyd iddo ar ein rhan gan Sali. Byddwn yn cael ein cinio Nadolig y mis nesaf yng Ngwesty Gardd Fôn yn y Felinheli,

Yr Ŵyl Gerdd Dant

Fel y cofiwch roedd yr Ŵyl Gerdd Dant eleni yn Wrecsam a’r Cylch a llongyfarchiadau i Einir Wyn Williams am gael ei dewis i feirniadu yn yr adran Alawon Gwerin. Mae’n debyg mai dyma’r pumed tro iddi feirniadu yn yr Ŵyl.

Llwyddiant Cai Llwyd yn yr O2 yn Llundain

Ym mis Tachwedd eleni cynhaliwyd twrnamaint tennis yr ATP yn yr O2 yn Llundain. Cystadleuaeth i’r wyth chwaraewr gorau yn y byd yw hon a hefyd i’r wyth tîm dwbl gorau. Roedd Cai yn awyddus i fod yn “Barclays Ball Kid”, roedd dros fil wedi ymgeisio ac fe lwyddodd i ddod i’r 30 olaf, ac roedd hyn yn dipyn o gamp. Cafodd ddyddiau o hyfforddiant cyn y gystadleuaeth ac yna treulio deng niwrnod yn Llundain gyda’r sgwad. Roedd pum grŵp o chwech a phob grŵp ar y cwrnt am 45 munud a chyfle i fod ar y cwrnt rhyw deirgwraith y dydd. Cafodd gyfle i gyfarfod â’r chwaraewyr a hefyd sêr o’r byd pêl droed a’r grŵp pop One Direction.



Cai Llwyd

Roedd ar y cwrnt yn ystod y gêm gyffrous rhwng Federer a Warinka. Roedd yn ddiwrnod hir iddo ef a’r bechgyn eraill ond fe gafodd brofiadau arbennig yno a chael canmoliaeth gan Federer a Warinka. Yn ogystal bu rhaglen Tag S4Cyn ei ddilyn am ddiwrnod. Llongyfarchiadau i ti Cai a phob hwyl yn y dyfodol

Cydymdeimlo

Daeth profedigaeth i ran Glenda, Aled ac Ethan, 3 Hafod Lon. Bu farw tad Glenda, sef John Howard Edwards o Waunfawr. Ein cydymdeimlad atoch fel teulu.

Yn 87 mlwydd oed bu farw William Hugh Griffith Llys, Brynrefail ond yn wreiddiol o Fferm Castell. Roedd yn frawd i Gwenno a’r ddiweddar Myfanwy ac Owie. Mynychodd Ysgol Rhiwlas am gyfnod ac roedd y teulu yn aelodau selog o Gapel Ysgoldy. Ceffylau oedd ei brif ddiddordeb a chafodd gryn lwyddiant gyda hwy. Fe geir ei hanes yn ei hunangofiant gyda’r teitl bachog ”O’r Castell i’r Llys”. Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys Crist, Llanddinorwig gyda’r gwasanaeth yng ngofal y Parch Ddr. Carol Roberts, y Parch Ganon Idris Thomas a’r Parchedig Marcus Robinson. Anfonwn ein cydymdeimlad at ei briod Elspeth a’r plant.

Hefyd fe gollodd Miss Jean Jones, Hafod Lon, ei chwaer-yng-nghyfraith sef Mrs Sarah Jones, Racca. Roedd yn wreiddiol o Lanllechid ac yn adnabyddus yn yr ardal am ei dawn i drefnu blodau. Anfonwn ein cofion hefyd at Alwyn ei gŵr.

Llongyfarch

Yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen eleni daeth Eurgain Haf yn fuddugol yng nghystadleuaeth y Fedal Ryddiaith. Teitl y stori fer oedd “Addewidion”. Mae Eurgain, Ioan a Cian yn byw ym Mhontypridd ac fe’i magwyd ym Mhenisarwaun ond yn enedigol o Riwas. Mae Ann ei mam yn wreiddiol o'r Rhes Uchaf yng nghesail Moel Rhiwen ac yno y treuliodd Eurgain ei blynyddoedd cynnar. Pan symudodd hi a’i gŵr i’w cartref

newydd ym Mhontypridd yr enw a roddwyd arno oedd Rhiwen.

Gair o Ddiolch

Y mae Peter, Tan y Weirglodd, adref o’r ysbyty ac y mae ef a Sharon yn dymuno diolch i deulu a ffrindiau am eu caredigrwydd a’u dymuniadau da yn ystod y cyfnod a dreuliodd yn yr ysbyty. Gobeithio y bydd yn parhau i wella.

Dymuna Helen, Nia a theulu'r ddiweddar Mrs Kate Rosser ddatgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a amlygwyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Mam, Nain a Chwaer a oedd mor annwyl iddynt. Diolch hefyd am y rhoddion er cof amdani tuag at Ward y Plant, Ysbyty Gwynedd lle bu’n gweithio’n ddiflino am flynyddoedd. Diolch i bawb a fu’n ymwneud â’r Llais dros y flwyddyn ddiwethaf. Diolch i John Huw Evans am ei waith diflino dros y blynyddoedd ac am ei arweiniad i mi’n bersonol. Cofiwch fod y calendr ar werth, dewch i gysylltiad os am ei brynu. Y mae talu’n flynyddol am y Llais yn hwyluso gwaith y dosbarthwr, diolch am wneud hyn.

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
4 Bro Syr Ifor,
Tregarth
☎ 600192

Eglwys y Santes Fair

Gwasanaethau

25 Rhagfyr – Cymun Nadolig am 9.15 y bore
28 Rhagfyr – Gwasanaeth ar y cyd gydag Eglwys Maes y Groes

04 Ionawr – Boreol Weddi
11 Ionawr – Cymun Bendigaid
18 Ionawr – Boreol Weddi
25 Ionawr – Cymun Bendigaid
Yr holl wasanaethau am 9.45 y bore.

Nos Iau, 27 Tachwedd cynhaliwyd gwasanaeth Bedydd Esgob dan arweiniad yr Esgob Andrew. Croesawn Iolo fel aelod newydd yn y Gelli ac Eileen yn Sant Tegai. Ar Nos Sul, 30 Tachwedd cawsom wasanaeth Carolau Adfent. Roedd yr eglwys yn edrych yn hyfryd wedi ei goleuo gyda chanhwyllau a mwynhawyd lluniaeth tymhorol ar ôl y gwasanaeth.

Diolch

Dymuna Rhian, Chris a Ceri ddiolch o galon i bawb am yr anrhegion a’r cardiau ynghyd â’r holl ddymuniadau da a gawsant ar enedigaeth Alys Rose.

Capel Shiloh

Ysgol Sul am 10.30
Oedfa am 5 o’r gloch oni nodir yn wahanol
Rhagfyr 14 Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul am 4 o’r gloch
Rhagfyr 21 Oedfa o ganu Carolau
Rhagfyr 27 R.J.H. Griffith, Bodffordd
Ionawr 4 Parch Gwynfor Williams
Ionawr 11 Parch Philip Barnett
Ionawr 18 Parch Olaf Davies
Ionawr 25 Diacon Stephen Roe

Mynydd Llandygái

Theta Owen
Gwêl y Môr, Mynydd Llandygai.
☎ 600744

Clwb Ieuenctid
Cafwyd Noson Goffi Chacen a Gwisg Ffansi gan y Clwb Ieuenctid. Diolch i bawb a fu’n coginio ar gyfer bwrdd y cacennau. Biti nad oedd mwy wedi dod i gefnogi! Hoffem ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda gan bawb o’r clwb. Diolch yn fawr.

Trip Clwb y Mynydd
Cafwyd diwrnod braf iawn yng Nghaer i siopa Nadolig. Pawb yn dod gyda bagiau di-ri! Diolchwn i Derfel Owen, Rhiwlas, am edrych ar ôl pawb fel arfer. Bydd y Clwb yn ôl nos Fercher 20 Chwefror. Hwyl dros yr ŵyl a chymerwch ofal.

Brysiwch Wella
Mae llawer o bobl y pentref yn sâl ar hyn o bryd. Anfonwn ein cofion atoch gan ddymuno adferiad buan i chi.

Clwb Cant y Neuadd
£20 137 S.M. Hughes
£10 34 D. King
£5 50 N. Penny
£5 53 J. Taylor
£5 122 Mrs Hart.

Diolch
Dymuna Kathleen Williams, 1 Penrhiw, a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt ar yr achlysur trist o golli tad a thaid annwyl, Terry Williams. Diolch i ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r ymweliadau. Diolch hefyd am y rhoddion hael er cof amdano tuag at Hosbis yn y Cartref Gwynedd a Môn - cyfanswm o £410.00.

Eglwys y Santes Ann a’r Santes Fair

Gwasanaethau

Rhagfyr
24: 11.30 y.h. Cymun Cyntaf y Nadolig
28: Boreol Weddi

2015
Ionawr
05: Gwasanaeth Teuluol
12: Cymun
19: Boreol Weddi

Dechreuir y gwasanaethau am 9.45 y bore..
Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno â ni yn ein gwasanaethau i ddathlu Gŵyl y Geni.

Os oes unrhyw un yn dymuno derbyn Cymun cartref cysylltwch ag un o'r gwardeiniaid - Peter Price (601199) neu Janet Williams (600434).

Carem ddiolch i'r Parchedigion John Matthews. Christina Mc.Crea ac Idris Thomas am eu gwaith a'u cefnogaeth gydol y flwyddyn.

Diolch i bawb a gefnogodd y Ffair Nadolig - enillydd y hamper Nadolig oedd Mrs. Alison Williams, Amana.

Ein dymuniadau gorau i bawb sy'n sâl ar hyn o bryd, anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd a dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n cyfeillion oll.

Braichmelyn

Rhiannon Efans,
Glanaber, Pant, Bethesda
☎ 600689

Symud
Mae Gwyn, Helen a Sacha Jones newydd symud i Fangor i fyw a dymunwn yn dda iddynt yn eu cartref newydd. Ar yr un pryd estynnwn groeso i deulu newydd i 13 Gernant. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith.

Cydymdeimlad
Cydymdeimlwn â Mrs Glenys Edwards a golodd ei chwaer yn ddiweddar a chofiwn at bawb sydd wedi bod o dan unrhyw anhwylder. Dymunwn yn dda iddynt oll.

Carneddi

Derfel Roberts,
Ffordd Carneddi, Bethesda ☎
600965

Llwyddiant
Llongyfarchiadau mawr i Steph Roberts, Ffordd Carneddi, ar ei lwyddiant yn ennill lle ar dîm Pysgota Cymru. Da iawn chdi, Steph, am dy lwyddiant, ac am ddod â chlod i’r ardal.

Marchnad Ogwen

Ar ran pawb ym Marchnad Ogwen, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll. Llawer o ddiolch i chi ein cwsmeriaid am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn. 'Rydym wedi cael blwyddyn lwyddiannus dros ben ac erbyn hyn wedi hen gartrefu yn Neuadd Ogwen. Mae'r Farchnad yn ffynnu!

Os ewch chi i ymweld â'n gwefan, www.marchnadogwen.co.uk fe gewch weld yr holl stondinau ynghyd â gwybodaeth sut i gysylltu i archebu nwyddau a chael yr holl wybodaeth gyfredol am y Farchnad bob mis. Mae'r Farchnad nesaf ar Ionawr 10fed o 9.30 - 1.30. Bydd cyfle i chwi brynu nwyddau Santes Dwynwen y tro yma.

Haf Thomas sy'n cynnal y Standin Elusen ym mis Ionawr. Mae Haf wedi cael ei chynabod gan yr Eisteddfod Genedlaethol am ei gwaith anhygoel i achosion da. Elusen Marie Curie sydd yn cael ei chefnogaeth ar hyn o bryd. Mis Awst yw'r mis nesaf sy'n rhydd i'r Standin Elusen (mae Medi wedi cael ei logi) Mae'r Standin Un Tro ar gael ar hyn o bryd. Gellir cael gwybodaeth bellach yn y Farchnad.

Felly, hwyl dros yr Ŵyl gan bawb ym Marchnad Ogwen a gobeithio y cawn eich gweld ym mis Ionawr.

Plant Ysgol Tregarth 1948-49



Rhes ôl : Valmai Roberts, Gwyneth Jones, Diana Jones, Alan Davies, Merfyn Roberts, Meirion Owen.
Rhes Ganol: Gwenfron Williams, Beryl Jaques, Ann Roberts, Marian Tocker, Beryl Davies
Rhes Flaen; Maureen Redfern, Ida Thomas, Pamela Roberts, Islwyn Jones, John Roberts, Raymond Parry.

Cyngor Gwledig Ogwen 1974



Rhes ôl: Richard Thomas, Alan Davies, Idris Griffith, Jean Davies, Richard Hughes, Idwal Williams.
Rhes Flaen: Robert Dewi Griffiths, Richard O. Jones, Edward Oliver, Emrys Albam Hughes, (Cadeirydd) Gwilym Davies, Parchedig Philip Butler.

Anfonwyd y lluniau gan Mr Alan Davies, 43 Penlôn, Porthaethwy, gynt o Dregarth

Pwy Sy’n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Dyddiadur Digwyddiadau 1901-1902

1901

- 15/02/1901 (Gwener): 3 tonnall o bwdin yn cael ei rannu yma heddiw.
- Ebrill 1901: Y Cyngor Dinesig yn cael caniatâd y Bwrdd Llywodraeth Leol yn Llundain i gadw cofnodion eu cyfarfodydd yn Gymraeg.
- 11/06/1901: Yr Arglwydd Penrhyn yn agor ei Chwarel i oddeutu 500 o ddynion (yn cynnwys 242 o chwarelwyr) a phob un yn cael sofran felen am ddychwelyd at ei waith. Cododd cynnwrf mawr yn yr ardal a gwrthdystio taer yn erbyn y ‘bradwyr’.
- 30/07/1901: 200 o filwyr traed a 60 o wŷr meirch yn cael eu symud i Fangor yn barod i wrthsefyll unrhyw helyntion ym Methesda.
- 02/08/1901: 100 o filwyr yr East Yorkshire and South Staffordshire Infantry a 30 dragŵn yn dod i Fethesda ond gadawsant ar ôl gweld nad oedd unrhyw drafferthion iddynt fynd i’r afael â hwy.
- 31/12/1901: 100 o blismyn a 150 o filwyr yn cyrraedd Bethesda i ddelio â thrafferthion yno. Arestwyd 27 o ddynion.

‘The crowd broke up into several groups, thereby becoming uncontrollable by the police, and they went straight for their targets; despite the stones thrown “in all directions”, the crowds were still very discriminating. As they rampaged through the streets, blackleg windows were smashed, one group broke all the windows in the Conservative Club, others attacked the Waterloo Inn and the Victoria Hotel, the lairs of pro-Penrhynites, and finally the crowd attacked the home of the unfortunate Richard Hughes, the first attack on whom had started the whole dispute; his windows were smashed and boulders crashed through his door. The following day, the South Staffordshire Infantry and the 7th Hussars were brought into the district. ...’

• Agor Chwarel Pantdreiniog gan Gwmni Cydweithredol y North Wales Quarries Limited, gyda’r Henadur W. J. Parry yn Rheolwr Cyffredinol.

1902-1903

- Côr Merched Bethesda yn crwydro ar hyd a lled Cymru a Lloegr yn codi arian i chwarelwyr y Penrhyn a oedd ar streic. Mrs M. E. Parry (Llinos y Bryn) oedd yr arweinydd, y cyfeilydd oedd Mr Jones-Owen, Bangor, a’r trefnydd oedd Richard Thomas, Caerberllan.

1902

- 31/05/1902: Marw’r bardd John R. Jones (Ogwenydd) yn 52 oed. Claddwyd ym Mynwent y Gelli.
- Agor Mynwent Ymneilltuol Coetmor. Rhoddwyd y tir gan yr Arglwydd Penrhyn ‘for the burial of Non-Conformists’.
- 06/1902: Oddeutu 700 o ddynion yn ôl yn y Chwarel. Dros 2000 o ddynion yn dal ar streic.
- Côr Merched Bethesda yn gadael am y Sowth i ganu bob nos am 13 wythnos. Daethant yn ôl 14/12/1902. Buont hefyd yn Llundain am 13 wythnos.

I’w barhau



Mae eich atgofion chi o Gwm Idwal hefyd i’w trysori. Fel rhan o’r dathliadau penblwydd rydym yn gofyn i chi gymryd y cyfle i rannu eich profiadau o’r Cwm drwy bostio eich hen luniau ar ein tudalen Twitter @Cwm_Idwal gan ddefnyddio’r #CwmIdwal60. Mae profiadau pobl o’r lle anhygoel hwn yr un mor bwysig i ni a chofnodion o’r bywyd gwyllt, felly os gwelwch chi’n dda, cyfrannwch at baentio darlun o Gwm Idwal ddoe a heddiw, er mwyn ei gofnodi a’i drysori. Diolch Os nad ydych yn defnyddio Twitter, croeso i chi gysylltu â swyddog partneriaeth Cwm Idwal: Guto Roberts ar 0124605535 neu guto.roberts@nationaltrust.org.uk i drafod sut y gallwn rannu eich lluniau.



Llyfrau’r Nadolig

Y CYFOETH GORAU

Cyfrl deyrnged i
W. Rhys Nicholas
1914 – 1996



CYMRUETHAS EMYNAU CYMRU

Y Cyfoeth Gorau

Emynydd amlycaf Cymru yn chwarter olaf yr ugeinfed ganrif oedd y Parchedig W. Rhys Nicholas (1914-96). Yn enedigol o sir Benfro, bu’n weinidog gyda’r Annibynwyr yn y Bryn, Llanelli, Horeb a Bwlch-y-groes, Ceredigion, a Phorthcawl. Roedd yn fardd ac yn llenor, yn ysgrifennydd i bwyllgor Y Caniedydd (1960), ac yn gyd-olygydd cylchgrawn Y Genhinen am flynyddoedd. Ond fe’i cofir yn bennaf am ei emynau, yn enwedig ‘Tydi a wnaeth y wyrth, O! Grist, Fab Duw’, a genir ar y dôn ‘Pantfyedwen’ gan M. Eddie Evans.

Cyfrl deyrnged iddo yw Y Cyfoeth Gorau, a gyhoeddir gan Gymdeithas Emynau Cymru i nodi canmlwyddiant ei eni. Mae’n cynnwys teyrngedau ac atgofion gan nifer o’i gydnabod, ysgrifau am ei farddoniaeth a’i emynau, a detholiad o’i waith. Pris y gyfrl, a gyhoeddir erbyn Nadolig 2014, yw £6.95.

Gwarchodfa Natur Cwm Idwal yn 60 oed

Ar y 27ain o Dachwedd 2014 cynhaliwyd digwyddiad arbennig yng nghanolfan ymwelwyr ‘Ogwen’ ym Mhen y Benglog. Roedd gwahoddedigion yno i ddathlu pen-blwydd Gwarchodfa Natur Genedlaethol gyntaf Cymru yn 60 mlwydd oed. Croesawyd y siaradwyr gan Caerwyn Roberts, Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, a chafwyd areithiau gan Trystan Edwards (Ymddiriedolaeth Genedlaethol) a Tim Jones, (Cyfoeth Naturiol Cymru). Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o weithio mewn partneriaeth a gwarchod safleoedd pwysig fel Cwm Idwal, yn ogystal â chyfeiriadau at y gwaith ymchwil fydd yn cael ei gynnal dros y flwyddyn nesaf fel rhan o’r dathliadau penblwydd.



Ar ôl yr areithiau aeth pawb i mewn i’r ganolfan ymwelwyr i fwynhau tamaid o’r gacen hyfryd gafodd ei phobi gan Siwgr a Sbeis, Llanrwst. Hefyd fe gafodd bawb gyfle i weld copi o lun Evan Roberts gan Kyffin Williams, wedi cael lle teilwng ar y brif wal, yn ogystal â chael cyfle i bori drwy un o’r dogfennau dynodi swyddogol cyntaf.

Ar ôl cael paned a chacen roedd cyfle i fynd am dro i weld canolbwynt y dathliad, sef Cwm Idwal ei hun. Cawsom ein hanrhydeddu â thywydd gwych ac roedd y golygfeydd i lawr Nant Ffroncon yn odidog.

Roedd y digwyddiad hefyd yn gyfle i gydnabod y gwaith ymarferol hanfodol sydd wedi cael ei wneud gan yr holl wirfoddolwyr, y contractwyr a’r cyn-fugail, Gwyn Thomas, a’r bugail presennol, Bob Doyle.

Lluniau Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen 2014



Enillydd y Gadair :
Llŷr Gwyn Lewis, Caerdydd.

Enillydd y Fedal Ryddiaith :
Eurgain Haf, Pontypridd.

Enillydd Medal yr Ifanc :
Iestyn Tyne, Boduan, Pwllheli



Llefaru Bl. 5 a 6 (o'r chwith) :
Elis Evans, Ysgol Llanllechid – 3ydd.
Mari Fflur Bullock, Ysgol Llanllechid – 2il.
Luned Elfyn, Ysgol Pen y Bryn – 1af.



Unawd Alaw Werin Bl. 6 ac iau (o'r chwith) :
Madeleine C. Lewis, Ysgol Llanfairfechan – 1af.
Swyn Angharad Wyn Owen, Ysgol Llanllechid – 3ydd.
Mari Fflur Bullock, Ysgol Llanllechid – 2il.



Llefaru bl. 1 (o'r chwith) :
Gruff Williams, Ysgol Abercaseg – 3ydd.
Caleb McLeod, Ysgol Llanllechid – 1af,
Cari Davies, Ysgol Abercaseg – 2il,



Unawd Bl. 3 a 4 (o'r chwith) :
Efa Glain Jones, Ysgol Llanllechid – 1af.
Madeleine C. Lewis, Ysgol Llanfairfechan – 2il.
Lois Haf Jones, Ysgol Llanllechid – 3ydd.



Llefaru Bl. 2 (o'r chwith) :
Ffion Haf Titon, Ysgol Llanllechid – 3ydd.
Chennai Chikanza, Ysgol Llanllechid – 1af.
Eli Mair Roberts, Ysgol Abercaseg – 2il.



Grŵp Offerynnol Bl. 6 ac iau :
Ensemble Ysgol Llanllechid (Yankee Doodle)
– y wobwr 1af.



Unawd Dosbarth Derbyn - Gwenno
Beech, Ysgol Llanllechid - 1af.



Parti Unsain Bl. 6 ac iau :
Ysgol Llanllechid – 1af.



Côr Ysgol Pen y Bryn yn ennill y gystadleuaeth i gorau bl.6 ac iau.



Parti Llefaru Cynradd : Ysgol Pen y Bryn – 1af.

Canlyniadau Eisteddfod
Gadeiriol Dyffryn Ogwen

Dydd Sadwrn

Llefaru Meithrin

1af – Begw Williams– Ysgol Abercaseg
2il – Gruffudd Beech- Ysgol Llanllechid
3ydd – Carwyn- Ysgol Llanllechid

Unawd Meithrin.

1af - Hari- Ysgol Llanllechid
2il - Erin – Ysgol Llanllechid
Cydradd 3ydd - Celyn Rhys a Begw Williams
– Ysgol Abercaseg

Llefaru Derbyn.

1af - Elin Thomas- Ysgol Abercaseg
2ail - Beca Pritchard - Ysgol Abercaseg
3ydd - Jake - Ysgol Llanllechid

Unawd Derbyn

1af – Gwenno Beech - Ysgol Llanllechid
2il – Leah – Ysgol Llanllechid
3ydd – Ursula - Ysgol Llanllechid

Llefaru Blwyddyn 1.

1af – Caleb McLeod - Ysgol Llanllechid
2il – Cari Davies - Ysgol Abercaseg
3ydd – Gruff Williams – Ysgol Abercaseg

Unawd Blwyddyn 1.

1af – Ruby-Grace Naylor - Ysgol Abercaseg
2il – Dwynwen Pritchard- Ysgol Abercaseg
3ydd – Esther Parry - Ysgol Tregarth

Llefaru Blwyddyn 2.

1af - Chennai Chikanza - Ysgol Llanllechid
2il – Eli Mai Roberts - Ysgol Abercaseg
3ydd – Ffion Haf Tipton- Ysgol Llanllechid

Unawd Blwyddyn 2.

1af – Mari Watcyn Roberts - Ysgol Llanllechid
2il – Eli Mai Roberts - Ysgol Abercaseg
3ydd – Elan - Ysgol Llanllechid

Llefaru Blynnyddoedd 3 a 4.

1af – Madeleine Carter Lewis - Ysgol
Llanfairfechan
2il – Nel Lovelock - Llannerchymedd
3ydd - Martha Jones- Ysgol Penybryn

Unawd Blynnyddoedd 3 a 4.

1af – Efa Glain Jones - Ysgol Llanllechid
2il – Madeleine Lewis - Ysgol Llanfairfechan
3ydd - Lois Haf Jones - Ysgol Llanllechid

Llefaru Blynnyddoedd 5 a 6

1af – Luned Elfyn - Ysgol Pen y Bryn
2il – Mari Bullock - Ysgol Llanllechid
3ydd – Elis Evans - Ysgol Llanllechid

Unawd Alaw Werin Blwyddyn 6 ac iau.

1af – Madeleine Carter Lewis - Ysgol
Llanfairfechan
2il – Mari Fflur Bullock - Ysgol Llanllechid
3ydd – Swyn Angharad Wyn Owen - Ysgol
Llanllechid



Unawd Bl. 5 a 6 (o’r chwith) :
Ela Lois Burgess – 3ydd.
Mari Fflur Bullock – 2il.
Mared Morris – 1af.
(I gyd o Ysgol Llanllechid).

Unawd Cerdd Dant Blwyddyn 6 ac iau.

1af – Efa Glain Jones - Ysgol Llanllechid

Unawd Blynnyddoedd 5 a 6.

1af – Mared Morris - Ysgol Llanllechid
2il – Mari Bullock - Ysgol Llanllechid
3ydd – Efa Lois Burgess - Ysgol Llanllechid

Parti Cerdd Dant Blwyddyn 6 ac iau.

1af - Ysgol Pen y Bryn
2il - Ysgol Llanllechid

Parti Llefaru Ysgol Gynradd.

1af – Parti Ysgol Pen y Bryn
2il – Parti Ysgol Llanllechid
3ydd - Parti Ysgol Tregarth

Unawd Offerynnol Blwyddyn 6 ac iau.

1af – Luned Elfyn - Ysgol Pen y Bryn
2il - Lily Ward - Ysgol Bodfeurig
Cydradd 3ydd - Emma Hughes- Ysgol
Llanllechid ac Esther Parry - Ysgol Tregarth

Unawd Piano Blwyddyn 6 ac iau

1af - Luned Elfyn - Ysgol Pen y Bryn
2ail- Mari Bullock - Ysgol Llanllechid
3ydd -Gwilym Gray - Ysgol Tregarth

Grŵp Offerynnol Blwyddyn 6

1af - Ensemble Ysgol Llanllechid - Yankee
Doodle
2il - Ysgol Pen y Bryn
Cydradd 3ydd -Ysgol Llanllechid - Flintstones
ac Ysgol Tregarth

Parti Unsain Blwyddyn 6 ac iau.

1af – Parti Ysgol Llanllechid
2il – Parti Ysgol Bodfeurig
3ydd – Parti Ysgol Tregarth

Côr Blwyddyn 6 ac iau.

1af – Côr Ysgol Pen y Bryn
2il – Côr Hŷn Ysgol Llanllechid
3ydd -Côr Iau Ysgol Llanllechid

Grŵp Dawnsio Disgo Blwyddyn 6 ac iau

1af - Ysgol Llanllechid

Dawnsio Disgo Unigol Blwyddyn 6 ac iau

1af - Mari Watcyn Roberts - Ysgol Llanllechid

Tarian Perfformiad Gorau am Lefaru

Luned Elfyn - Ysgol Pen y Bryn
Tarian Perfformiad Gorau Cerddorol
Luned Elfyn - Ysgol Pen y Bryn

Llenyddiaeth Ysgolion
Cynradd y Dalgylch

Stori

1af – Begw Evans - Ysgol Llanllechid
2il – Elis Evans - Ysgol Llanllechid
3ydd – Efa Lois - Ysgol Llanllechid



Llongyfarchiadau i Luned Elfyn,
Ysgol Pen y Bryn :
Perfformiwr gorau ar Gerdd a Llefaru.

Cerdd

1af –Efa Lois - Ysgol Llanllechid
2il – Emma Hughes - Ysgol Llanllechid
3ydd – Louis Revillus - Ysgol Llanllechid

Cyfarfod yr Hwyr – Nos Wener
Tachwedd 21ain, 2014

Unawd Lleisiol:

1af – Meilir Jones, Llangefni
2il – Glynn Morris, Manceinion
Cydradd 3ydd – Bethan Elin Wyn Owen,
Trefor, Ynys Môn
- Dafydd Allen, Bodelwyddan

Unawd Offerynnol (yn cynnwys piano):

1af – Math Roberts, Llanrug
2il – Mabon Jones, Bethesda Bach
3ydd – Ynyr Pritchard -Ysgol Brynrefail

Côr Cymysg/Meibion/Merched:

1af – Lleisiau Mignedd
2il – Côr Dre
3ydd – Côr Bro Meirion

Cyflwyniad dramatig:

1af - Bethan Elin Wyn Owen - Trefor, Ynys
Môn.
2il - Morgan Owen - Bangor

Rhaglen o Adloniant i Ysgolion Uwchradd

1af – Band Ysgol Syr Hugh Owen
2il – Pedwarawd y Bont
Cydradd 3ydd - Côr Iau Ysgol Dyffryn
Ogwen/Pedwarawd y Cwad

Canlyniadau'r Adran Lenyddol

Enillydd y Gadair:

Llŷr Gwyn Lewis, Caerdydd

Enillydd y Fedal Ryddiaith:

Eurgain Haf, Pontypridd

Enillydd Medal yr Ifanc:

1af : Iestyn Tyne, Boduan, Pwllheli
2il : Iestyn Tyne, Boduan, Pwllheli

Llên yr Ifanc

Blynnyddoedd 7-9:

1af – Beca Nia - Bl.8 Ysgol Dyffryn Ogwen
2il – Cadi Roberts - Bl.9 Ysgol Dyffryn
Ogwen
Cydradd 3ydd – Gwydion Rhys - Bl.7 ac Esme
Crowe - Bl.9 Ysgol Dyffryn Ogwen

Blynnyddoedd 10-11:

1af – Buddug Roberts - Bl.10 Ysgol Dyffryn
Ogwen
2il – Elen Wyn - Bl.10 Ysgol Dyffryn Ogwen
3ydd – Martha Evans - Bl.10 Ysgol Dyffryn
Ogwen



Unawd Bl. 2 (o’r chwith) :
Eli Mair Roberts, Ysgol Abercaseg – 2il.
Mari Watcyn Roberts, Ysgol Llanllechid – 1af.

Côr Meibion y Penrhyn

Perfformiadau lu.

Gyda’r Nadolig ar y trothwy mae’r côr yn parhau i fod yn brysur gyda pherfformiadau yn Henllys, canu mewn priodas i ferch un o’r aelodau yn Chateau Plas Rhianfa, a pherfformiad yng nghapel Jerwsalem gyda thalentau lleol eraill. Hefyd, wrth gwrs, bydd y côr yn canu carolau i godi arian at achosion da yn y cylch unwaith eto eleni.

Yna, yn y flwyddyn newydd byddwn yn cynnal nifer o gyngherddau yn Llanfairfechan, Llandudno, Henllys a Bethesda, i enwi dim ond rhai o’r lleoedd y bydd pobl yn tyrru iddynt i’n clywed yn perfformio.

Band y Black Dyke

Fel y soniwyd y mis diwethaf mae cyngerdd mwyaf erioed Côr y Penrhyn yn digwydd yn Venue Cymru, Llandudno ar 20 Mehefin, pryd bydd y band pres gorau yn y byd yn perfformio gyda ni o flaen 1500 o bobl. Mae’r tocynnau ar gael gan aelodau’r côr yn awr am y prisiau rhesymol iawn o £17.50 ac £20 ac mae mynd mawr arnynt eisoes. Felly, archebwch eich tocynnau rŵan rhag i chi gael eich siomi!

Siwtiau newydd


Mae aelodau’r côr wedi buddsoddi mewn siwt siarcol, crysau glas a theis lliw llechen neu borffor golau deniadol tu hwnt. Bydd y siwt newydd yn gweithredu fel ail siwt ychydig yn llai ffurfiol na’r brif siwt a hynny ar gyfer achlysuron megis rhai awyr agored a llai swyddogol.

Y Bonheddwr Haydn Davies fu’n gyfrifol am drefnu ein bod yn cael y siwtiau newydd ac mae’r côr yn dymuno diolch o galon iddo am ei waith caled yn rhedeg yn ôl ac ymlaen i Gaernarfon gyda samplau, mesuriadau a llu o negeseuon eraill.

Meddai Haydn, “Mae’r côr yn awr yn edrych yn llawer iawn mwy smart a thrwsiadus ac rydw i wedi manteisio ar y cysylltiadau sydd gen i ym myd ffasiwn ‘avant garde’ a ‘haute couture’ i ganfod y dillad gorau i’r côr gorau”.

Ychwanegodd, “Gallwn edrych ymlaen yn hyderus bellach i ganu yng nghwmni cewri fel Band y Black Dyke a theithio i America gan wybod bod ein cyflwyniad teilwrol crystal â’n cyflwyniadau cerddorol.”

Cymeriadau’r Côr



Cyfres yw hon sy’n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Elfed Bullock o Faes y Garnedd, Bethesda, sydd wedi ymddeol.

- 1 Be’ ydy dy enw llawn?** Elfed Bullock
- 2 Oed?** 76
- 3 Lle wyt ti’n byw?** Maes y Garnedd, Bethesda
- 4 Un o le wyt ti’n wreiddiol?** O’r Gerlan.
- 5 Pa dri pheth fasai’n dy ddisgrifio orau?** Mwynhau bywyd, Tawel, Gofalus efo arian.
- 6 Ers faint wyt ti’n aelod o’r côr** Ers 1971

- 7 Pa lais wyt ti?** Bas 1 neu Fariton.
- 8 Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Roedd pedwar brawd i mi wedi ymuno â’r côr ac roeddwn innau am wneud yr un peth. Hefyd rydw i’n hoffi canu.
- 9 Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** Y Greadigaeth, trosiad i’r Gymraeg o The Creation gan Willy Richter.
- 10 Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?** Ivan Rebroff, Almaenwr a garai ganu caneumon gwerin o Rwsia.
- 11 Beth ydy dy farn di am ganu pop?** Ddim yn deall y geiriau’n aml iawn ac felly ddim yn siŵr beth maen nhw’n ganu.
- 12 Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo’r Côr?** Ymweliad y côr â Cincinatti yn yr Unol Daleithiau a chanu yn yr ‘Hall of Mirrors’ yn y Gymanfa Gymraeg yn 2006 gyda’r côr yn perfformio Y Greadigaeth a’r golau’n dod ymlaen wrth i ni ganu – “A bu Goleuni”. – gwefreiddiol!
- 13 Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i’r côr?** – Bowlio a gwylio chwaraeon a mwynhau bod yng nghwmni’r wyrion a’r wyresau.
- 14 Oes yna rywbeth faset ti’n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** Mi faswn i’n hoffi gweld mwy o hogiau’r ardal yn ymuno â’r côr, yn enwedig y rhai ifanc.

Agor Siop Ogwen

(Parhad o’r dudalen flaen)

Wrth Agor Siop Ogwen yn Stryd Fawr Bethesda, dywedodd yr Aelod Sneddol Lleol: "Pleser ywcael agor Siop Ogwen yn swyddogol a fydd yn adnodd gwerthfawr i Fethesda a'r cylch gan ddarparu lle arddangos i grefftwyr lleol, a gwasanaethau fel gorsaf heddlu i'r gymuned. Dymunaf y gorau i'r fenter yma, sydd wedi ei harwain gan y gymuned leol, a byddaf yn siŵr o alw heibio eto yn fuan."

ENNILL GWOBR BUSNES

Yn ddiweddar enillodd Zip World, sef cwmni’r Weiren Wib, ddwy brif wobr yn seremoni Gwobrau Busnes y Daily Post.



Hywel Williams AS yn llongyfarch Rheolwr Cyffredinol y busnes

Dywedodd Hywel: ‘Roeddwn yn falch iawn o gyfarfod Rheolwr Cyffredinol Zip World er mwyn llongyfarch y cwmni ar ennill gwobrau yn Seremoni Busnes y Daily Post yn ddiweddar. Mae’n braf gweld y busnes yn ffynnu ac yn denu ymwelwyr i’r rhan hon o Ogledd Cymru’

Nwyddau lleol

Mae'r siop grefftau yn awr yn masnachu. Mae mwyafrif y cynnyrch yn Siop Ogwen wedi ei wneud a'i gynhyrchu yn Nyffryn Ogwen felly os ydych yn chwilio am anrhegion Nadolig 'lleol' a gwefreiddiol eleni, dewch draw am sbec. Mae'r siop ar agor 6 diwrnod yr wythnos ac yn gwerthu popeth, gan gynnwys gemwaith cywrain, printiau leino unigryw, ffotograffiaeth lleol, sebonau, llechi, bagiau lledr, mygiau llenyddol, torchau Nadolig, crefftau ysgol, cardiau a llawer mwy. Mae nwyddau llechen biws Welsh Slate hefyd ar gael yn y siop a nifer o'r eitemau ar gael am bris gostyngedig. Nid yw'r nwyddau hyn ar werth yn unman arall yn lleol gan fod cynnyrch Slotir yn cael ei werthu i westai a bwytai crand Llundain gan amlaf, felly brysiwch draw i fachu bargaen! Yn bwysicach, dewch draw i gefnogi crefftwyr talentog y Dyffryn. Nid yw Siop Ogwen yn cymryd unrhyw gomisiwn allan o werthiant nwyddau'r crefftwyr lleol a bydd pob ceiniog o'ch gwariant yn y siop yn mynd yn uniongyrchol i bocedi artistiaid a chrefftwyr lleol sy'n dechrau sefydlu eu busnesau.

Gwasanaethau amrywiol

Yn ogystal â'r crefftau, mae Siop Ogwen yn cynnig gwasanaethau. Rydym wedi dechrau gwerthu tocynnau rhai o ddigwyddiadau Neuadd Ogwen ac mae tocynnau'r Panto yn prysur fynd. Mae gwasanaethau Cyngor i Ferched, Wardeiniaid Ynni Grŵp Cynefin a Banc Bwyd yn cael eu cynnal o'r siop yn ogystal, a byddwn yn mynd ati i ystyried agor cangen o Undeb Credyd yn Siop Ogwen yn y flwyddyn newydd. Byddai'r Barneriaeth yn croesawu unrhyw syniadau eraill am wasanaethau yr hoffech chi eu gweld yn y siop ac rydym hefyd yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli.

Yn ystod yr wythnosau nesaf, byddwn yn cynnal diwrnod agored a noson siopa hwyr mewn partneriaeth â busnesau a sefydliadau eraill. Byddwn hefyd yn agor ein drysau ar gyfer ymweliadau gan ysgolion lleol ac yn parhau i werthu cynnyrch clybiau menter ysgolion yr ardal. Mae calonnau lafant a chardiau Clwb Menter Ysgol Llanllechid eisoes ar gael yn y siop.

Mae'n ddyddiau cynnar i Siop Ogwen ond mae'r lleoliad eisoes yn datblygu i fod yn ganolfan ac adnodd cymunedol gwerthfawr ar Stryd Fawr Bethesda. Edrychwn ymlaen at groesawu pawb atom i ganolfan Siop Ogwen. Nadolig llawen iawn i chi gyd!

Ymgymmerwr adeiladu a
gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda

☎ 01248 601052

Os am gynnal bore coffi neu
ddigwyddiad arall yn Neuadd
Ogwen cysylltwch gyda Dilwyn
Owen
drwy e-bost
post@neuaddogwen.com neu
drwy ymweld â'r neuadd i drafod.

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda

☎ 602112 (gyda'r nos 602767)

Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieinaidd (Kung Fu)

Dosbarthiadau
yng Nghanolfan
Gymdeithasol
Tregarth bob
nos Fercher
6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch
â'r hysbyseb hwn hefo chi

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦
Manylion gan Jake neu Elena
Fitzpatrick - 01248 602416
neu galwch heibio'r dosbarth

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531

01248 600282

jtemplemorris@btinternet.com

BYSUS
D. J. Owens
RHIWLAS

01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.

Bysus Gwyrdd Rhiwlas

GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd

Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎ 601031

Sefydlwyd

1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI

2 Hen Aelwyd, Bethesda

☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI

Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwylans Gogledd Cymru

Blodau Racca

PENISARWAUN

*Planhigion gardd a basgedi crog o'r
ansawdd gorau*

Ffôn: 01286 870605

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel

Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Swyddfeydd eraill:

Llangefni Amlwch Benllech
(01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782

Caernarfon
(01248) 673616

Pwllheli
(01758) 703000

D. Hughes a S. Roberts

Seiri Maen

Bob math o Waliau Cerrig
Ffensio : Tirlunio

Ffôn : 07766 895352

MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWYR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

O’r Cyngor

Cyngor Cymuned Bethesda
“Gwerth cymuned yw’n credo
A’n braint yw gwarchod ein bro”

Gair o’r Cyngor
Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Bethesda
Nos Iau, Hydref y 30ain yng Nghanolfan
Gorffwysfan.

Trafodwyd adroddiad y Cynghorydd Griff
Morris ar Gorffwysfan. Yn y cyfarfod
penderfynwyd trefnu bod y mwsog ar rai
llwybrau cyhoeddus yn cael ei drin a
phenderfynwyd hefyd i ysgrifennu at
Gyngor Gwynedd am gyflwr Cae Star ac i
drefnu bod yr ardal o gwmpas y gofeb yn
cael ei thacluso.

Trafodwyd sefyllfa ariannol y Cyngor a
phenderfynwyd cael cyfarfod arall i fonitro’r
gyllideb. Cafwyd adroddiad am drefniadau
gorymdaith Gŵyl Ddewi a hefyd adroddiad
am ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen yn
trin gardd Llys Dafydd.

Penderfynwyd cysylltu â’r Cyngor Sir
ynglŷn â phroblem traffig ar allt Bethania yn
enwedig ar ei gwaelod ac i fabwysiadu
cynllun y pwyllgor i wella’r goleuadau
Nadolig. Penderfynwyd peidio â symud
ymlaen ar hyn o bryd i geisio cael grant i
drwsio canolfan Rachub, nes bod y pwyllgor
wedi trafod dyfodol tair canolfan
gymdeithasol yr ardal.

Da oedd clywed fod Sara DeWart, merch
leol, wedi cael swydd yn Siop Ogwen o dan
y cynllun Tyfu Swyddi Cymru.

Cyngor Pentir

Yn eu cyfarfod mis Tachwedd clywodd
cynghorwyr Cyngor Cymuned Pentir
am y gwahanol brosiectau roedd y cyngor yn
gweithio arnynt.

Hysbysfwrdd
Nodwyd fod yr hysbysfyrdau newydd wedi
eu gosod ar dir Neuadd Glasinfryn ac ar dir
y Neuadd ym Mhenrhosgarnedd. Bydd
cofnodion y cyngor i’w gweld yno ynghyd â
manylion am y cynghorwyr ac unrhyw beth
arall fyddai o ddiddordeb i’r etholwyr. Yn
ogystal, bydd map o’r ddwy ardal yn cael eu
gosod fydd yn dangos llefydd o ddiddordeb
ynghyd â lluniau yn dangos fel yr oedd hi yn
yr hen ddyddiau. Os gall unrhyw un roi
benthyg hen luniau o’r ardaloedd hyn neu
luniau o bobl oedd yn byw ynddynt, byddai’r
clerc yn falch o’u derbyn.

Mainc a chafnau blodau
Mae rhai ohonoch sy’n cerdded wedi gweld
y fainc newydd a’r cafnau blodau o osodwyd
gan y cyngor dros y ffordd i fynediad Ysbyty
Gwynedd.

Cysgodfan
Hefyd, clywodd y cynghorwyr y diweddaraf
am y gwahanol brosiectau roedd y cyngor yn
gobeithio eu cwblhau cyn diwedd y
flwyddyn ariannol yma.
Bydd gwaith ar y ffens yng nghae chwarae
Caerhun yn cychwyn yn fuan ac mae
cynlluniau ar y gweill i gael cysgodfan bws
newydd a hysbysfwrdd yng Nghaerhun
hefyd. Hefyd, gobeithir gallu plannu bylbiau
at y Gwanwyn yn y gwahanol ardaloedd, ac
wedyn i gael blodau at yr Haf.

Cyngor Cymuned Llandygái

Cynhaliwyd cyfarfod Tachwedd yng Nghanolfan Tregarth, gyda’r Cynghorydd H. P. Jones yn y
gadair.


Mae trefniadau ar dro i ailosod hysbysfwrdd yn ystod yr wythnosau nesaf.

Yn dilyn cwynion am gyflwr wyneb rhai o’r llwybrau mae swyddogion o’r Cyngor Sir yn
bwriadu gwneud archwiliad. Maent eisoes wedi gosod arwyddion ar rai o’r llwybrau.

Gan fod y cwynion yn parhau oherwydd cŵn yn baeddu paratowyd rhestr o’r lleoliadau
gwaethaf, i gael sylw pellach. Symudwyd hen rewgell oedd wedi cael ei gwaredu’n
anghyfreithlon gan swyddogion y Cyngor Sir, a hynny heb oedi, er diogelwch i blant.

Gofynnir i’r Adran Gwastraff ddarparu bin sbwriel gerllaw’r cae pêl-droed yn Nhregarth.

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd H. P. Jones ar gyfarfod yn ymwneud â Chynllunio a
Datblygu gan y Cynghorwyr Ms Sharon Breward MBE a Mrs E. Frodsham ar faterion yn
ymwneud â Mynydd Llandygái ac ar Ganolfan Tregarth gan y Cynghorydd Rhys M. Llwyd.



CHWILAIR RHAGFYR 2014 Adar Prydain

A	C	H	C	Y	N	F	F	O	N	S	I	D	A	N	J	Q	C	O	H
R	Y	K	R	O	B	B	C	W	W	N	S	O	M	O	X	E	U	S	C
R	M	D	T	N	N	V	F	G	W	Y	D	D	W	Y	L	L	T	W	A
P	B	H	C	O	G	F	D	D	Y	G	D	D	Y	H	C	R	O	T	B
E	F	U	A	U	R	X	S	Z	V	X	T	M	S	N	T	X	I	W	I
R	O	J	V	D	A	M	S	T	Z	V	S	P	P	J	O	M	N	C	U
Y	D	K	Y	I	E	Z	P	A	L	H	X	N	E	Y	W	C	G	W	U
R	H	B	F	U	P	R	S	Y	C	L	X	K	J	V	A	S	K	N	V
E	C	C	U	Z	Q	X	Y	O	B	S	Y	F	L	T	G	Y	U	N	P
U	R	A	I	L	I	L	C	N	N	W	O	W	H	F	O	Z	R	G	H
R	A	C	M	U	J	D	D	F	Y	L	P	P	N	D	Z	C	L	V	U
A	L	U	O	I	U	J	P	S	G	B	M	M	N	E	W	Y	T	L	A
I	A	W	Z	C	D	A	D	M	R	M	W	G	I	V	D	Z	V	D	P
D	Y	Q	R	K	R	E	M	Y	R	M	T	N	O	C	C	A	H	D	D
U	X	A	G	Y	L	N	B	G	K	D	M	L	L	T	R	D	Y	M	E
A	B	F	P	F	R	A	H	S	E	H	W	J	I	D	X	N	B	W	O
U	G	I	A	R	G	Y	N	I	C	Y	R	D	N	Y	R	E	D	A	H
F	F	E	D	W	W	P	H	G	R	U	G	A	I	R	D	D	U	A	Z
K	Z	Q	O	K	G	W	A	L	C	H	Y	P	Y	S	G	O	D	P	U
I	A	D	Y	X	H	Q	C	Q	O	A	N	X	W	L	T	N	H	Y	G

Yn y chwilair mis yma mae enw deuddeg o adar sydd i’w gweld ym Mhrydain. Mae un cliw
wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddarganfod y gweddill. (Mae LL, CH, DD, TH,
ac yn y blaen yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy
lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y Coed, Bethesda,
Bangor, Gwynedd, LL57 3NW. Erbyn Ionawr 2 . Bydd gwobr o £10 i’r enw cyntaf allan o’r
het. Os na fydd unrhyw un wedi darganfod y deuddeg yna’r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Wel, ’roedd yr ymateb i Chwilair y mis diwethaf yn llawer iawn gwell na’r un yn ymwneud ag
enwau gweithfeydd a chwareli Llanllechid a Llandygái. Dyma atebion Tachwedd: Barrug;
Cymylau; Dadmer; Eira; Glaw; Gwynt; Llifogydd; Lluwch; Oerni; Poethder; Rhew; Sychder.
Dyma enwau’r rhai a gafodd yr atebion cywir. Elizabeth Buckley, Tregarth; Rosemary
Williams, Tregarth; Elfed Bullock, Bethesda; Glenys Roberts, Hen Barc Llanllechid; Doris
Shaw, Bangor; Mair Jones, Bethesda; Myfanwy Jones, Gaerwen; Marilyn Jones, Glanffrydlas
Bethesda. Enillydd Tachwedd oedd. Mair Jones, Bryn Onnen, Ffordd Bangor, Bethesda.
Cofiwch fod y wobr wedi dyblu o’r mis yma ymlaen. Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd
Dda i chwi oll. Andre.



Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal "cut throat")

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymwrwr Trydanol

Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480

Y Douglas Arms

* Lluniaeth i Bartion * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *

Oriau Agor

Llun - Gwener: 6.00 - 11.00

Sadwrn: 3.30 - 12.00

Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 - 11.00

01248 600219

www.douglas-arms-bethesda

Cewch groeso cynnes gan
Gwyn, Christine a Geoffrey

Gareth Williams

Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707

GWASANAETH DYDD A NOS

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS



CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550

karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwyio ar gyfer
partion o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN

(Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partion
o bob math - dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i

Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Londis Bethesda

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

**STEPHEN
JONES**



**TREFNYDD
ANGLADDAU**

Hefyd ymgymryd
â gwaith cerrig beddi:
adnewyddu neu o'r newydd

Gweithdy Pen-y-bryn

Cefn-y-bryn, Bethesda

Ffôn: gweithdy 600455
gartref 602455
personol 07770 265976
Bangor 360001

Gwasanaeth personol ddydd a nos

JOHN ROBERTS

Paentiwr

Papurwr

Teilsiw



Symudol: 07747 628650

Ffôn: 01248 600995

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045

Caernarfon 01286 676070

Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol

Stoc helaeth ac amrywiol

Croeso i gyfrifon masnachol

Staff cyfeillgar a phroffesiynol

Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768

LLanrwst 01492 640794

Siop yn 01492 640794

Llanrwst

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni

Croesair Rhagfyr 2014

AR DRAWS

- 1 Un o'r tri teithiwr (Nadoligaidd) (7)
- 5 Gweler 10 Ar Draws (4)
- 9 Dinas y geni (8)
- 10 Dim enw, ond ai ef yw landlord enwocaf 9 Ar Draws ? (3,1)
- 11 Ymbaratoi i ryfel (6)
- 13 Sut mae Henrietta yn perthyn i Hogia Llandegai ? (4)
- 15 Uwchben y llygad (3)
- 17 Yn rhannol rhaid i'r penci osgoi y bwth bach coch yn Nhalysarn, neu mi fydd Dafydd Iwan yn siwr o ganu amdano (5)
- 19 Nid fo. (2)
- 20 Braidd yn hy, Dafydd --, Llywydd cyntaf y Cynulliad (2)
- 21 Teisen yn Arfon ond nid yn Llŷn (5)
- 23 Tybed welodd Mair a Joseff yr afon yma wrth ddianc rhag Herod (3)
- 26 Ffurfafen (4)
- 27 Nôl crys yr Aelod Seneddol, - mae o'n rêl clown yno (6)
- 30 "---- a'i Farn" S4C. Dowch i drafod (4)
- 31 Pwdu (5,3)
- 32 Arian De Affrica (4)
- 33 Pan fydd yn ŵr o gylch ei bethau gall wneud y dasg. (7)


I LAWR

- 2 Os ewch chi i hwn, ewch chi ddim pellach (5)
- 3 Roedd angen dau o'r papurau hyn i wneud punt i nain (8)
- 4 Ffrwyth i'r ymerawdwr Rhufeinig croes (4)

- 6 Ar chwâl, dail sydd wedi newid o fod yn ir i fod yn gwywo (6)
- 7 Dyma yw Enlli (6)
- 8 Enw 'Tad y Cenhedloedd' cyn iddo gael enw newydd (Genesis, Hen Destament) (5)
- 12 Gair cadarnhaol (2)
- 13 Y gorau, "heb ei ---" (3)
- 14 Banc (1,1,1)
- 16 Er ei lliw, nid oes eira arni yn ôl hunangofiant 'Brenhines ein Llên' (3)
- 17 Planhigyn y Nadolig (5,3)
- 18 Dwrn yw'r un sydd ynghau (3)
- 19 Sialens iddi hi, y Saesnes (3)
- 21 Cydymaith 1 Ar Draws (6)
- 22 Camau cyntaf Mair a Joseff ar y daith o Nasareth (6)
- 24 Yr agosaf i'r llywydd (2)
- 25 "- ---- Lyfrau", rhaglen ar Radio Cymru i drafod llyfrau (1,4)
- 28 Trigolion Gwalia (5)
- 29 Er yn Wyl o Lawenydd, mae crïo yno (4)

ATEBION CROESAIR TACHWEDD 2014

- AR DRAWS 7 Cynwyl, 8 Romani, 9 Taffi, 10 Diferion, 11 Eto i Ddod, 12 Carthu, 15 Eboni, 17 Traddodi, 20 Celwyddau, 22 Dial, 23 Cyngres, 24 Ymaros
- I LAWR 1 Llyffant, 2 Gweision, 3 Tlodion, 4 Crefu, 5 Amir/Emir, 6 Annoeth, 13 Arddodiad, 14 Creuddyn, 16 Blewyn, 18 Diacon, 19 Addasu, 21 Ward




Dyma gamgymeriadau y tro hwn, 'cyfres' yn lle 'cyngres', 'crafu' yn lle 'crefu', ac 'omar' yn hytrach nag 'emir' neu 'amir'. Gan y canlynol y cafwyd ymgeision cywir : Elizabeth Roberts, Rhostryfan; Ann Carran, Rita Bullock, Bethesda; Jean Hughes, Talybont, Richard Ogwen a Rhian, Gerlan; Dafydd Evans, Penisarwaun, Gaynor Elis-Williams, Carneddi; Evelyn Lupson, Pensby Wirral; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Doris Shaw, Bangor; Karen Williams, Elfed Evans, Llanllechid; Ellen Whitehouse, Birmingham; Dilys Parry, Derec a Mai Jones; Jean Vaughan Jones, Rhiwlas; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; John a Meirwen Hughes, Abergele; Rosemary Williams, Dulcie Roberts, Sara a Gareth Oliver, Elizabeth Buckley, Tregarth.

MaeMae'r wob'r llongyfarchiadau y tro hwn yn mynd i E. E. Roberts, Frondeg, Llanberis, Gwynedd LL55 4HR

Atebion erbyn dydd Mercher, 31 Rhagfyr 2014 i: 'Croesair Rhagfyr', Bron Eryri, 12 Gameddwen, Bethesda LL57 3PD.

Enw:
Cyfeiriad:



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672 076

williamshy@parliament.uk



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk

Siop Ogwen

Cownter Gwasanaethau

Dydd Llun 10.00-4.00: Cymorth i Ferched

Dydd Llun 9:30-11:30: Banc Bwyd (Derbyn Talebau)

Dydd Mawrth 10.00-2.00: Wardeiniaid Ynni

Dydd Mercher 12.00-2.30: Banc Bwyd (Dosbarthu Bwyd)

Siop Grefftau ar agor Llun - Sadwrn

01248 602131 partneriaeth@ogwen.org

"FFONIWCH DIONI I GAEL
'BWCINGS' YCHWANEGOL
DROS Y GAEAF"

tel: 01341 247 200

ebost: gwion@dioni.co.uk

DIONI



Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penralla, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257

Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



OWEN'S TREGARTH

Cludiant Preifat a Bws Mini

Angen Dreifar Proffesiynol



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260

07761619475



www.owenswales.co.uk

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY



JR SGAFFALDIAU Cyf.
SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NE

ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:

01248 601754

07770 568743 (symudol)



BARBWR OGWEN



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

SAMARIAID

Mae
Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Malinda Hayward (Gwniadwraig)

Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

Tudur Owen, Roberts, Glynne a'u cwmni



DEWCH I WELD
EICH
CYFREITHIWR
LLEOL

SGWÂR BUDDUG
STRYD FAWR
BETHESDA
GWYNEDD
LL57 3AG



BETHESDA
01248 600171
bethesda@torglaw.co.uk

Cyfreithwyr

Y CYNGOR CYNTAF
AM DDIM

EWYLLYSIAU A
PHROFIANT
SYMUD Tŷ

L. Sturrs a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

Ffacs: 602571

lsturrs@goolemail.com

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

Gwasanaeth Nadolig
Cymunedol

yng Nghapel Jerusalem
Nos Sul 21 Rhagfyr
7.00pm

Dewch i ddathlu'r ŵyl
yng nghwmni

Côr Meibion y Penrhyn
Côr y Dyffryn
Corau Ysgol Dyffryn Ogwen
ac eraill

Gwneir casgliad at achos da
Croeso cynnes i bawb

EGLWYS UNEDIG
BETHESDA

‘LLENWI’R CWPAN’

Dewch am sgwrs a phaned
Bob bore dydd Iau
rhwng 10.00 o’r gloch a hanner
dydd

Canolfan Cefnfaes

Bore Coffi

Dydd Sadwrn 24 Ionawr
10.00 - 12.00

Mynediad £1
Yr elw at gronfa
Tracy Smith

Canolfan Cefnfaes
BETHESDA

GYRFA CHWIST

Ionawr 13 a 27
am 7.00 o’r gloch

Dewch i fwynhau
nosweithiau difyr

CANOLFAN CEFNFAES

Bore Coffi Nadoligaidd

Côr y Penrhyn
Sadwrn, 20 Rhagfyr
10.00 tan 12.00

Mynediad £1.00

Dewch am banad a sgwrs

Marchnad Ogwen

Yr ail ddydd Sadwrn yn fisol

Ionawr 10fed
Neuadd Ogwen,
9.30am - 1.30pm

Chwefror 14eg
Neuadd Ogwen,
9.30am - 1.30pm

Bwydydd, Crefftau, Caffi

www.marchnadogwen.co.uk
Twitter #marchnadogwen
Facebook

Cymdeithas Hanes
Dyffryn Ogwen

Nos Lun 12 Ionawr 2015
am 7.00 o’r gloch

Dr J Elwyn Hughes

Dyffryn Ogwen a’r Rhyfel
Mawr, 1914 i 1918

£1.50 wrth y drws neu am
ddim i aelodau

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11-12, 2il Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen, Neuadd Ogwen
11-12, 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's

Cyrsiau Iaith yn Neuadd Ogwen

Rydym yn casglu enwau i gynnal cyrsiau WLPAN yn Neuadd Ogwen i
ddechrau diwedd Ionawr 2015. Os ydych yn adnabod unrhyw ddarpar
ddysgwyr, mae cyfle iddynt gofrestru yn Siop Ogwen neu yn Neuadd
Ogwen.

Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â
Meleri ar 01248 602131

Neuadd Ogwen

Mis Ionawr

2	Ffilm PRIDE	7pm
3	Ffilm matinee BOXTROLLS	11am
10	MARCHNAD OGWEN	9.30am
10	Pesda Roc CWIS SRG -DYL MEI, WELSH WHISPERER	7.30pm
16	Ffilm CONCERNING VIOLENCE	7pm
17	Ffilm matinee THE KING AND THE MOCKINGBIRD	11am
19	Theatr Plant HWYADEN FACH HYLL	
24	MARCHNAD PESDA	9.30am
25	Bwyd & Diod CINIO DYDD SUL/SUNDAY LUNCH	7.30pm
29	Theatr MR BULKELEY O'R BRYNDU	10am
30	Ffilm SET FIRE TO THE STARS gyda Q & A	7pm
31	Ffilm matinee THE BOOK OF LIFE	11am
31	Pesda Roc - I'W GYHOEDDI	7pm

Cymdeithas Hanes Dyffryn
Ogwen



Gerwyn James (ar y dde) yn sgwrsio gydag un o aelodau'r
Gymdeithas Hanes, Wyn ap Iorwerth, ar ddiwedd y ddarlith
ddifyr ar “Blant y Rhyfel Mawr” a draddodwyd ganddo yn
festri Jerusalem ar 10 Tachwedd.



Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau Mis Tachwedd aeth nifer o aelodau i noson
gymdeithasol ym Methel i wrando ar Marian Hughes yn
ein hannerch am ei hymweliad ag India. Ar ddiwedd y
cyfarfod mwynhawyd lluniaeth ac fe godwyd swm parchus
o arian tuag at dreuliau'r etholiad.

Yna, ynghanol y mis aeth rhai o'r aelodau i gyfarfod o'r
Blaid Lafur ym Mhorthmadog i dderbyn adroddiad am
Gyngor Gwynedd ac i drafod materion perthnasol, gan
gynnwys ad-drefnu cynghorau sirol.

Ar ddiwedd y mis cynhaliwyd cyfarfod misol y gangen
yng Nghanolfan Cefnfaes i dderbyn adroddiadau ac i
baratoi ar gyfer Ffair Nadolig y gangen yn Neuadd Ogwen.
Yn ystod y mis roedd Alun Pugh, sef yr ymgeisydd
seneddol, ac eraill yn dal i ganfasio o ddrws i ddrws gyda
thimau o aelodau'n canfasio ar y teliffon.

GAIR O'R DOSBARTH

Ysgol Dyffryn Ogwen

Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Llongyfarchiadau i holl ddisgyblion yr ysgol a fu'n cymryd rhan yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen yn ddiweddar. Yn y gystadleuaeth i ysgolion uwchradd yn unig, sef cyflwyno rhaglen o adloniant hyd at 8 munud, daeth côr yr ysgol yn drydydd. Cafwyd perfformiad da iawn hefyd gan y Côr Hŷn.

Diolch hefyd i'r disgyblion fu'n cymryd rhan yn yr orsedd yn y brif seremoni, ac yn arbennig felly'r ddau archdderwydd, Rhiannon Llwyd a Manon Hughes, am waith graenus iawn. Bu nifer o ddisgyblion hefyd yn llwyddiannus yn y cystadlaethau llenyddol.

Llongyfarchiadau mawr iawn hefyd i Seirian Puw o'r 6ed Dosbarth ar ennill Ysgoloriaeth Gelf yr eisteddfod.

Diolch i Mr Hefin Evans am hyfforddi'r eitemau cerddorol, ac i Mr Dafydd Roberts a Miss Jeni Lyn Morris gyda'r orsedd a'r cystadlaethau llen.



Seirian Puw



Adam Hughes

Ysgoloriaeth – Adam Hughes

Llongyfarchiadau mawr iawn i Adam Hughes a oedd ym mlwyddyn 13 cyn yr haf am ennill Ysgoloriaeth Cymdeithas Cyfreithwyr Gwynedd sydd yn werth £500. Mae'r ysgoloriaeth yn agored i fyfyrwyr sydd yn mynd i'r brifysgol i astudio'r Gyfraith, ac fe gafodd Adam ei ddewis ar sail cryfder ei gais. Mae bellach yn astudio'r Gyfraith yn y Brifysgol yng Nghaerdydd. Adam oedd un o'r ddau i ennill Ysgoloriaeth Dafydd Orwig yn y Cyfarfod Gwobrwyo blynyddol.

Ymweliad Blwyddyn 6

Bu holl ddisgyblion blwyddyn 6 o'r ysgolion cynradd, gan gynnwys Ysgol Llandygái am y tro cyntaf, yn yr ysgol am ddiwrnod yn profi amrywiaeth o wersi. Yr oedd yr athrawon o'r ysgolion cynradd yn hael iawn eu canmoliaeth i'r ddarpariaeth.

Bocsys Esgidiau 'Teams4U'

Ddydd Mawrth, y deunawfed o Dachwedd, casglwyd nifer helaeth o focsys esgidiau Nadoligaidd yn yr ysgol. Roedd pob bocsys yn llawn i'r ymylon ag amrywiaeth o anrhegion yn deganau, da-da, cyfarpar ysgrifennu, llyfrau a sebonach! Sicrhodd disgyblion blwyddyn 8 a rhai o flwyddyn 12 fod y bocsys yn barod i'w casglu gyda'r cyfraniad ariannol angenrheidiol ynddynt. Er hyn, heb eich cymorth a'ch cefnogaeth chi fel rhieni ni fyddai'r ymgyrch hon wedi bod yn llwyddiant, diolch o galon i chi am eich cefnogaeth unwaith eto!

Gŵyl Gorawl Gogledd Cymru

Cafodd côr yr ysgol wahoddiad yn ddiweddar i berfformio yng Ngŵyl Gorawl Gogledd Cymru ar yr 7fed o Dachwedd yn Venue Cymru, Llandudno. Nid oedd cystadleuaeth eleni yn y categori ysgolion uwchradd ond yn dilyn perfformiad proffesiynol y côr y flwyddyn ddiwethaf gofynnwyd iddynt gynnal cyngerdd byr i'r ysgolion cynradd a fu'n cystadlu yn ystod y dydd. Paratowyd rhaglen amrywiol iddynt gan ddechrau'n frwdfrydig gyda cân fodern 'Let the Sun Shine'. Yn dilyn, canodd y côr drefniant o 'Dod ar fy mhen' gan un o'r beirniaid, Mary Pritchard. Er ei bod hi yn brysur yn beirniadu ac yn penderfynu ar y corau buddugol cynradd, daeth i mewn i'r neuadd yn un swydd i wrando ar gyflwyniad y côr a chafodd ei phlesio'n arw gan y canu tyner. I gloi, fe ganodd y côr emyn bywiog o'r enw 'Galw Enw'r Iesu', ynghyd â phiano, bas a drymiau fel cyfeiliant. Roedd y profiad yn un arbennig a nodwyd gan nifer helaeth yn y gynulleidfa mor wefreiddiol oedd safon y côr a'r ffaith eu bod yn ysbrydoliaeth i'r rhai ifanc oedd yn gwrandao yn y gynulleidfa. Da iawn chi am eto ddangos doniau'r adran gerdd i'r eithaf!

Rygi



Llongyfarchiadau i Shaun Thomas (chwith) ar chwarae i dîm dan 15 RGC (Gorllewin) yn ddiweddar. Fe deithiodd i'r gorllewin gwyllt i chwarae yn erbyn Ysgolion Llanelli yn Nhrimsaran, hen glwb Jonathan Davies, sylwebydd bellach. Er na chafwyd llwyddiant o ran sgôr fe chwaraeodd Shaun a'r tîm yn dda iawn mewn gêm gyffrous ac agos.

Canlyniad rygbi bechgyn dan 16 - YDO 44 - 7 Tryfan

Ceisiadau gan: Iwan Roberts, Lewis Hall, Iago Davies, David Florence, Will Parry, Mathew Griffiths, Scott Bullock. Morgan Jones yn cicio 2 drosiad.

Canlyniad rygbi bechgyn dan 14 –YDO 64 – 0 Ysgol Bro Hyddgen
Ceisiadau gan Gruff Roberts - 2, Shaun Roberts - 2, Kieran Briggs - 2 a Mathew Buchanan – 4. Llwyddodd Ben Williams i drosi saith o'r rhain.

Taith Gerdded

Bu disgyblion B17 i 10 yn cymryd rhan mewn taith gerdded nodedig er mwyn codi arian i'r Adran Addysg Gorfforol. Cawsom dywydd gwerth chweil ar y diwrnod (ar ôl gohirio'r dyddiad gwreiddiol oherwydd y glaw!) a cherddodd y disgyblion o Lyn Ogwen ar hyd y Lôn Las yn ôl i'r ysgol - taith o oddeutu 5 milltir. Hyd yma mae £1400 wedi'i gasglu a bydd yr arian yn mynd i brynu offer newydd a sicrhau bod disgyblion yr ysgol yn medru parhau i gystadlu ar lefel sirol a chenedlaethol mewn nifer fawr o chwaraeon. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd.

Gymnasteg

Bu nifer fawr o lwyddiannau i ddisgyblion Dyffryn Ogwen ym mhencampwriaethau gymnasteg Ysgolion Eryri ar ddydd Mercher, Tachwedd 26ain yng Nghaernarfon. Roedd dros 350 o ddisgyblion yn cystadlu o ysgolion Gwynedd, Môn a Chonwy mewn gweithgareddau twmblo a llofnedio. Canlyniadau disgyblion unigol - Katie Pipe (bl7), Sion Bullock (bl7) a Math Owen (bl11) - 1af. Dillon Evans (bl7) a David Florence (2ail). Iago Davies (bl11) a Iestyn Owen (bl7) 3ydd. Bu'r timau yn llwyddiannus iawn hefyd gyda'r tîm bechgyn canolradd yn cipio'r fuddugoliaeth yn ogystal â thimau genethod blwyddyn 7 a bechgyn blwyddyn 9+ yn dod yn ail. Llongyfarchiadau mawr iddynt i gyd.

Taith i Gaerdydd

Bu holl fyfyrwyr Bagloriaeth Cymru blwyddyn 12 ar daith i Gaerdydd ar Dachwedd 13eg-14eg. Prif bwrpas yr ymweliad oedd gwella eu dealltwriaeth o sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio, pwy sy'n ein cynrychioli a pha feysydd sydd wedi eu datganoli. Cawsant chwarae rôl Aelod Cynulliad trwy gymryd rhan mewn dadl yn Siambr Hywel (hen siambr y cynulliad) ar y testun; A ddyldid gostwng yr oed pleidleisio i un ar bymtheg oed ? Yn ogystal cawsant weithdy addysg a chael eu tywys o amgylch y Brif Siambr.

Cafwyd cyfle hefyd i fynd ar daith o amgylch Stadiwm y Mileniwm gan weld y cyfleusterau arbennig sy'n cuddio yng nghrombil yr adeilad cyn manteisio ar y cyfle i ymweld â siop neu ddwy. Ar y ffordd adref ymwelwyd ag Amgueddfa Pwll Mawr Safle Treftadaeth Byd; profiad hynod o gael cip ar fywyd a chaledi gwaith y glöwr dros y degawdau.



Ysgol Rhiwlas

Chwaraeon.

Mae’r plant wedi bod yn lwcus iawn y tymor yma i gael dysgu sgiliau pêl-droed gan aelodau o dîm hyfforddi Clwb Pêl-droed Wrecsam. Maent wedi bod yn brysur iawn ar ôl yr ysgol bob nos Fercher ac efallai y bydd pêl-droedwyr o fri yn eu plith. Aeth rhai o’r plant drosodd i gae pêl-droed Wrecsam ychydig wythnosau yn ôl i ddangos eu doniau chwarae yn ystod hanner amser gêm Wrecsam. Cawsant bnawn i’w gofio.

Aeth tîm o blant blwyddyn 5 a 6 i chwarae yn nhwrnamaint pêl rwyd ysgolion cynradd Gwynedd ym Maes Glas, Bangor yn ddiweddar. Wedi diwrnod caled o chwarae daethant yn drydydd gan guro ysgolion dipyn mwy fel Felinheli, Maesincla a Chae Top. Da iawn chi blant.

Aeth Gwen Williams, Seren Jones a Cassie Dodd i gynrychioli’r ysgol yn nhwrnamaint nofio’r Urdd ym Mangor. Er na chafwyd llwyddiant y tro hwn, fe wnaeth y tair ohonynt eu gorau a da iawn nhw am gystadlu.

Gwasanaeth Diolchgarwch a Nadolig.

Cafwyd gwasanaeth gwerth chweil gan y plant yng Nghapel Pisgah yn ddiweddar. Roeddent i gyd wedi gwneud eu gorau ac roedd yn braf gweld cymaint wedi dod i wrando arnynt.

Ar nos Sul cyntaf yr Adfent Nadolig cafwyd gwasanaeth yn eglwys Cedol gyda phlant yr ysgol yn cymryd y gwasanaeth. Roedd yn braf gweld y lle yn llawn a chael teimlad Nadoligaidd wrth ddod adre. Da iawn chi a phob lwc hefo’r panto Dolig rŵan.

Parti Mostyn.

Bu te parti yn yr ysgol ddiwedd y tymor wedi ei drefnu gan y dosbarth babanod. Buont yn brysur yn gwneud jam ac fe groesawyd rhieni a babanod y pentref i ymuno â nhw yn y parti i brofi’r jam ac i gael hwyl.

Croeso.

Croeso i Catherine Hill-Tout, myfyrwraig o’r brifysgol sydd wedi ymuno gyda ni i ddysgu plant yr adran iau a hefyd Catherine Roberts sydd yn dilyn cwrs Gradd sylfaenol. Gobeithio y byddwch eich dwy yn hapus yma.

Rhifedd.

Daeth cwmni i’r ysgol i roi cyflwyniad mewn cymeriad am Robert Recorde i addysgu am rifedd a rhesymu tra cafodd plant yr adran Sylfaen fynd o amgylch y pentref ar daith rhif.

Disgo.

Cafwyd dau ddisgo llwyddiannus yn ddiweddar, sef un calan gaeaf a disgo 60-70au. Roedd pawb wedi gwisgo i fyny yn wych a’r staff wedi darganfod eu hen ddillad ar gyfer disgo’r 60au!

Plant mewn Angen.

Penderfynodd y plant wisgo eu pyjamas i’r ysgol i godi arian i Blant Mewn Angen. Yn ystod y dydd cafwyd sioe dalent gyda’r plant a’r athrawon yn dangos eu gwahanol dalentau ac mae yna gryn nifer yn yr ysgol. Codwyd £95, da iawn chi.

Plas Tan y Bwlch.

Cafodd plant blwyddyn 5 a 6 gyfle i fynd ar ymweliad preswyl i Blas Tan y Bwlch yn ddiweddar. Tra yno cawsant ddysgu am hanes a daearyddiaeth yr ardal ac i fyny i Gwm Ystradllyn a Chwm Idwal. Roedd y plant wedi ymddwyn yn wych.

Ffair Nadolig.

Cafwyd ffair werth chweil wedi ei threfnu gan gyfeillion yr ysgol. Diolch am gymorth pawb ar y noson.

Carai plant Ysgol Rhiwlas ddymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr y Llais.

Ysgol Abercaseg

Sialens Ddarllen yr Haf

Da iawn bawb a fu’n brysur dros wyliau’r haf yn gwneud amser i ymweld â llyfrgell Bethesda yn ogystal â chael seibiant bach! Llwyddodd nifer fawr o blant yr ysgol i fod yn ddarllenwyr brwd dros y gwyliau ac fel cydnabyddiaeth o’u hymdrechion canmoladwy cyflwynwyd medal i bob un ohonynt fel gwobr. Mae’n braf gweld plant Ysgol Abercaseg yn gwneud defnydd gwych o un o adnoddau gwerthfawr yr ardal.

Plant Mewn Angen

Roedd cyffro mawr yn yr ysgol ar fore ‘Plant Mewn Angen’ wrth i’r plant gyrraedd yr ysgol yn eu gwisgoedd llawn lliw a dychymyg. Roedd y Sgwad Syniadau’n awyddus i gefnogi’r ymgyrch ac wedi penderfynu mai cael pawb i dalu am gael gwisgo i fyny oedd y ffordd orau o godi arian. Da iawn chi.

Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Llongyfarchiadau mawr i’r holl ddisgyblion a fu wrthi’n brysur yn paratoi ar gyfer yr eisteddfod eleni. Cafodd yr ysgol eisteddfod hynod o lwyddiannus gyda nifer o ddisgyblion o’r Meithrin i Flwyddyn 2 yn dod i’r brig. Da iawn bawb am gystadlu a chefnogi ein heisteddfod leol.

Ymgyrch bocsys ‘Operation Christmas Child’

Unwaith eto eleni roedd Ysgol Abercaseg yn falch o fod yn rhan o’r ymgyrch flynyddol i lenwi bocsys anrhegion Nadolig ar gyfer plant anghenus mewn gwahanol rannau o’r byd. Mae’n galonogol gweld plant yr ysgol yn meddwl am eraill llai ffodus na hwy ym mysg holl fwrwm a chyffro paratoadau’r wyl.

Rhodd Ariannol

Hoffem estyn ein diolch twymgalon i staff a chwsmeriaid ‘Tafarn Y Bull’ am eu rhodd hael o £150 i’r ysgol. Bydd bob ceiniog o’r arian yn cael ei wario ar adnoddau er budd y disgyblion ac rydym yn ddiolchgar iawn i’n cyfeillion yn yr ardal am ein cefnogi unwaith eto.

Gwobr Arian y Siarter Iaith

Fel cydnabyddiaeth o’r holl waith caled sy’n cael ei wneud yn gyson yma i hyrwyddo’r defnydd o’r iaith Gymraeg drwy gydol y dydd cyflwynwyd tystysgrif Gwobr Arian Siarter Iaith Gwynedd i’r ysgol yn ddiweddar. Canmolwyd yn arbennig arweiniad y ‘Dreigiau Caseg’, ymroddiad holl ddisgyblion yr ysgol a gwaith cymeradwyol ein cymorthyddion dosbarth. Rydym yn falch iawn ohonoch i gyd.



Efa Celyn, Eli a Iago yn derbyn tystysgrif Arian y Siarter Iaith



Harri, Cari a Cara yn helpu i lwytho’r anrhegion Nadolig.

Gwobr Siarter Iaith

Mae’r ysgol yn ymdrechu pob tro i hybu defnydd o’r iaith Gymraeg boed yn y dosbarth neu allan ar yr iard. Mae’r ysgol wedi cael ei chydabod am y gwaith yma mewn seremoni wobrwyo yn ddiweddar. Cawsom ein hanrhydeddu gyda gwobr arian y Siarter Iaith. Rydym yn falch o holl ddisgyblion yr ysgol am eu hymdrechion i ennill y wobr.

Diolch

Rydym yn ddiolchgar iawn i gwmni Mona Lifting Ltd (Steven Jones a

Robin Evans) am eu rhodd hael o gynhwysydd pwrpasol i gadw biniau ail-gylchu'r ysgol yn ddiogel ac i Mr Dylan Jones, Abercaseg, am ddod i osod yr offer yn ei le yn ei amser ei hun. Diolch yn fawr iawn i bawb yn y cwmni am ein cynorthwyo i gadw amgylchedd yr ysgol yn dachus ac yn ddiogel ar gyfer y plant i gyd.

Ysgol Llandygái

Ymweliad â'r Eglwys

Bu disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn ymweld â'r eglwys i gynnal seremoni o fedydd. Diolch i'r Parch John Matthews am chwarae rôl ficer yn berffaith! Roedd yr ymweliad yn ffordd effeithiol iawn o ddatblygu dealltwriaeth y plant o'r seremoni grefyddol hon.

Bu disgyblion Blwyddyn 1 a Derbyn yn ymweld â'r Eglwys yn ddiweddar hefyd. Thema gwaith y tymor ydi Lliwiau ac roedd un uned o waith yn canolbwyntio ar 'Liw a Golau'. Felly roedd yn brofiad gwerthfawr iddynt gael gweld yr haul yn pelydru drwy'r ffenestri lliw i mewn i'r adeilad. Rydym yn hynod o lwcus fod gennym adeilad o'r fath mor agos at yr ysgol.

Gwobr Efydd y Siarter Iaith

Bu aelodau o'r cyngor ysgol yng Nghaernarfon yn ddiweddar i dderbyn Gwobr Efydd y Siarter Iaith.

Roedd cynrychiolaeth o ysgolion Arfon yn y seremoni a braf oedd cael cwmni Mr Dewi Jones a gafodd y weledigaeth a chyflwyno'r Siarter yn Nant Gwrtheyrn bron i dair blynedd yn ôl.

Yn dilyn dwy flynedd o waith caled rydym yn hynod o falch o'r disgyblion - mae hi'n gyfnod cyffrous yn yr ysgol ble mae paratodau a chynllun gwaith yn ei le i ymgyrraedd at ennill y Wobr Arian. Erbyn hyn mae'r disgyblion, y gweithlu, y rhieni a'r llywodraethwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mewn Undod Mae Nerth !

Diolch

Diolch unwaith eto i'r holl wirfoddolwyr darllen sy'n ymweld yn wythnosol er mwyn codi lefelau darllen a deall y disgyblion. Mae eich gwaith gwirfoddol yn cael ei werthfawrogi gan yr holl staff. Rydym yn edrych ymlaen at ychwanegu aelodau i'r tîm yn y flwyddyn newydd.

Dymuniadau Gorau

Diolch a phob dymuniad da i Miss Sioned Francis sydd wedi bod yn weinyddes am gyfnod yn yr ysgol. Llongyfarchiadau iddi ar gael swydd lawn amser yn Ysgol Gynradd Llanfairpwll.

Gala Nofio

Llongyfarchiadau mawr i bob disgybl fu'n cymryd rhan yng Ngala Nofio'r Urdd yn ddiweddar.

Sioe Joseff

Mae holl ddisgyblion llawn amser yr ysgol wedi bod yn gweithio yn hynod o galed dros yr wythnosau diwethaf yn paratoui i lwyfannu sioe gerdd Joseff. Byddwn yn perfformio'r sioe am y tro cyntaf yn Ysgol Uwchradd Tryfan. Profiad newydd a chyffrous i bawb.

Ffair Nadolig

Fel rhan o gynllun Mentergarwch yr ysgol mae'r disgyblion wedi bod yn brysur yn paratoui cynnyrch er mwyn eu gwerthu yn y Ffair gan gadw tystiolaeth o'r broses waith ynghyd â nodi'r elw a wnaed o'r fenter. Byddai Syr Alan Sugar wrth ei fodd!!

Cynllun Pontio

Cafodd disgyblion Blwyddyn 6 gyfle yn ddiweddar i gydweithio a chreu darn o gerddoriaeth gyda Ed Wright o'r Brifysgol. Bydd y darn yn cael ei berfformio yng Nghyngerdd agoriadol Pontio yn ystod y flwyddyn nesaf.

Naws y Nadolig

Cynhelir gwasanaeth arbennig dan ofal y disgyblion a staff yr ysgol yn Eglwys Tegai bnawn Llun Rhagfyr 15fed. Cyfle yw hwn i ddathlu'r Nadolig drwy wrando ar ddarlenniadau o'r Beibl, a darlenniadau o farddoniaeth a rhyddiaith ac i gyd-ganu carolau traddodiadol a modern.

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda gan holl ddisgyblion a staff Ysgol Llandygai.



Ysgol Bodfeurig

Darllenwyr o fri



Llongyfarchiadau mawr i'r criw yma am gyflawni'r her ddarllen yn y Llyfrgell dros yr haf. Mae llawer o blant yr ysgol yn mwynhau darllen ac mae hynny'n amlwg o edrych ar y criw yma, da iawn chi!

Gala Nofio'r Urdd

Aeth nifer o blant yr ysgol i gystadlu yng Ngala Nofio'r Urdd ym mhwl nofio Bangor. Gwnaeth pawb eu gorau glas ac roeddent yn wych am gynrychioli'r ysgol. Llongyfarchiadau mawr i Marley am ddod yn drydydd yn y ras pili pala!

Plant Mewn Angen



Roedd yr ysgol yn llawn arwyr ar ddydd Plant Mewn Angen! Daeth pawb i'r ysgol wedi gwisgo fel eu harwr i gasglu arian. Diolch i bawb gyfrannodd.

Eisteddfod Dyffryn Ogwen



Rydym yn falch iawn o bob disgybl o'r ysgol fu'n cystadlu yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Llongyfarchiadau mawr i Lilly ddaeth yn ail am chwarae ei fflwt ac i'r parti canu am ddod yn ail hefyd!

Ysgol Pen-y-bryn

Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Cafwyd diwrnod gwych yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen ar Dachwedd 22ain. Bu cystadlu brwd a braf oedd gweld cymaint yno'n cefnogi. Daeth y côr a'r parti llefaru a'r parti cerdd dant i gyd yn gyntaf. Daeth y Grŵp Offerynnol yn ail ac mi gafodd Martha drydydd gyda'r llefaru. Yn wir, bu'n ddiwrnod arbennig iawn i Luned Roberts a ddaeth yn gyntaf gyda llefaru, yr unawd piano a'r unawd offerynnol. Does dim rhyfedd felly ei bod wedi cael y darian am y Perfformiad Gorau am Lefaru a'r darian am y Perfformiad Cerddorol Gorau. Ardderchog, Luned! Da iawn chi, blant, rydyn ni'n hynod falch ohonoch!

Operation Christmas Child

Da iawn disgyblion Ysgol Pen-y- Bryn am gefnogi Operation Christmas Child trwy lenwi bocsys esgidau gydag anrhegion eto y flwyddyn yma. Daeth y fan i gasglu 50 o focsys a fydd yn siwr o roi gwên ar wynebau plant bach y Nadolig yma.

Gala Nofio'r Urdd

Da iawn i bawb am gymryd rhan yng ngala'r Urdd ddydd Sadwrn. Llongyfarchiadau mawr i Catherine sydd wedi llwyddo i gynrychioli Eryri yng Nghaerdydd yn y flwyddyn newydd.

Cwm Idwal

Yn ddiweddar, bu plant dosbarth Carnedd ar daith i Cwm Idwal. Ein harweinydd oedd Catrin Owen o Cyfoeth Naturiol Cymru. Cawsom amser diddorol iawn efo hi yn dysgu am hanes y Cwm a'r Llyn. Wedi cawod fer, mwynhaodd bawb bicnig ar lan y dŵr. Gwelsom lawer o esiamplau o fyd natur o'n cwmpas ac roeddem wedi synnu gweld pa mor fawr oedd y Gigfran oedd yn edrych arnom yn pasio heibio. Hefyd, doedd neb wedi sylweddoli ein bod wedi cerdded tua thair milltir wrth fynd o amgylch y llyn! Diolch yn fawr iawn i Catrin am ddiwrnod diddorol dros ben mewn cwm hyfryd sydd reit ar garreg ein drws.

Codi arian

Casglwyd £136.92 i achos 'Plant Mewn Angen' wrth i'rdisgyblion dalu £1 i wisgo'u dillad eu hunain - da iawn chi blant! Gyda gwerthiant y deunydd pabi coch casglwyd £127.33 ac mae mwy wedi'i hel yn y bocs coch - diolch o galon i chi gyd am eich cefnogaeth.

Darllen gwych!

Llongyfarchiadau mawr iawn i'r criw anferth yma am lwyddo gyda'r sialens ddarllen 'Chwilfa Chwedlau'. Cynllun ydyw i hybu plant i ddefnyddio'r llyfrgell ac wrth reswm i ddarllen ac roedd gofyn iddynt fynd i'r llyfrgell o leiaf dairgwaith dros wyliau'r haf a darllen o leiaf 6 llyfr. Da iawn chi, blant am ddatblygu'ch sgiliau darllen!

Ysgol Llanllechid

Londis

Aeth dosbarthiadau Mrs Marian Jones a Mrs Rona Williams draw i Londis er mwyn cael dysgu mwy am y ffordd y mae'r siop yn gweithio. Cawsom groeso bendigedig gan Mr Johnny Thomas, y rheolwr a'r staff, ac roedden nhw'n fwy na bodlon ateb yr holl gwestiynau a baratowyd gan y plant. Cawsom grwydro o amgylch y siop, dysgu am y lle storio yn y cefn, sut mae'r bwyd yn cyrraedd, a dysgu bod wyau Pasg yn cyrraedd y siop yn ystod gwyliau'r Nadolig! Cafodd pob un o'r plant ffrwyth a diod cyn troi yn ôl am yr ysgol! Diolch i bawb yn Londis am y croeso!

Piggery Pottery

Yn ddiweddar fe aeth dosbarth Mrs Wilson i Piggery Pottery. Yno, cafodd pob un gyfle i ddewis moch arbennig, cyn eu peintio yn bob lliw dan haul. Diolch unwaith yn rhagor i Barbra, Piggery Pottery am ei chroeso a'i chymorth.

Dyn Tân

Fe fu dosbarth Mrs Wilson yn lwcus iawn yn ddiweddar yn cael ymwelydd i'r dosbarth. Dyn tân lleol yw Mr Owain ac roedd ganddo neges bwysig i'w rhannu hefo ni. Cafodd pawb yn y dosbarth gyfle i ddysgu am yr hyn sy'n beryglus yn y tŷ ac am bethau sy'n gallu achosi tân. Ei neges bwysig oedd, os oes unrhyw un yn gweld matsus neu leitar, peidiwch â'u cyffwrdd, ewch i ddweud wrth oedolyn. PAID CYFFWRDD, DWED!

Tesco

Aeth dosbarth Mrs Bethan Jones i archfarchnad Tesco Caernarfon, a chafodd y plant brofiadau lu! Cawsant fynd o amgylch y siop yn chwilio am lysiau sy'n cael eu tyfu ym Mhrydain a thu hwnt ac yna eu defnyddio

i wneud cawl llysiau blasus! Cawsant fara ffres gyda'r cawl. Roedd gweld y pysgod yn cael eu diberfeddu yn destun o ryfeddod i bawb! Diolch yn fawr i Mr David Griffiths y rheolwr, gŵr sy'n wreiddiol o Rachub!

Eisteddfod

Llongyfarchiadau i bawb o'r ysgol a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen eleni. Cafwyd llwyddiant ysgubol yn yr holl gystadlaethau, o'r celf i'r canu i'r llefaru i'r ysgrifennu i'r dawnsio disco! Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n gweithio'n galed i hyfforddi'r plant ac i Mrs Jane Parry, Mrs Helen Williams a Mrs Menai Williams.

Y Ddawns Flodau

Plant o ddosbarth Blwyddyn 2 oedd yn perfformio'r Ddawns Flodau yn Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen eleni. Roedd pob un o'r dawnsiwr ifanc, ysgafndroed yn werth eu gweld ar lwyfan Neuadd Ogwen. Diolch i Ms Rhian Haf a Mr Tomos Morris am eu hyfforddi. Llongyfarchiadau hefyd i Eurgain Jones ar ei champ!

Becws Cae'r Groes

Am groeso gwresog a gawsom ym Mecws Cae'r Groes, trysor o adnodd yn ein pentref. Roedd oglau'r bara'n crasu yn ein hudo tua'r fangre wrth i ni fynd i ddysgu am gymysgeddau anghildroadwy a solid, hylif a nwy mewn awyrgylch cartrefol braf. Ac eto, hylendid oedd ar frig yr agenda wrth i ni wisgo ein capiau glas i orchuddio gwallt a chlustiau a hyd yn oed locsyn Mr Philip Russell, y rheolwr hylendid. Diolch i'r perchnogion Mr a Mrs Gwyn a Marian Williams a hefyd i'r rheolwr Mr Geraint Jones am ddarparu cyfle dysgu euraidd ar y safle ac am y cyfle hael i flasau eich cynnyrch rhagorol. Bydd ciw o blant Llanllechid am brynu mwy o gacennau cri a mins peis erbyn y Nadolig - amheuthun yn wir. Mae'r llythyron gwerthfawrogol yn y post i chi!



Mwynhau'r croeso a chael blasu danteithion Becws Cae'r Groes

Mentergarwch yn y Gymuned

Fel y gwŷr y rhieni eisoes, mae cael prynu nwyddau'r Clwb Menter yn rhan o fywyd Ysgol Llanllechid ers blynnyddoedd. Ond, her newydd sbon felly oedd cael ymestyn y farchnad i'r gymuned ehangach drwy Siop Ogwen. Diolch yn fawr iawn i Meleri Davies am ei chroeso a'i harweiniad i'r entrepreneuriaid ifanc wrth iddynt fentro i'r siop i drafod prisiau, pecynnu a chyflwyniad eu nwyddau. Llauer cleniach na'r Mr Siwgr yna! Ac am siop braf yw Siop Ogwen ar Stryd Fawr, Bethesda! Mae'n anrhydedd cael rhannu gofod yn y siop gyda nwyddau hardd crefftwyr proffesiynol. Gobeithio y bydd pawb yn tyrru i'r siop i gefnogi'r entrepreneuriaid lleol, boed yn hen neu yn ifanc. Neges gan aelodau o'r Clwb Menter sy'n gynhyrchwyr calonnau lafant persawrus o ddefnydd Masnach Deg: Prynwch yn lleol er mwyn i'r ardal a'i mentrau lwyddo... diolch.



Gyda Meleri Davies yn Siop Ogwen mae Emma, Ila ac Esme yn cynrychioli Clwb Menter Ysgol Llanllechid.

Corddi

Roedd yn rhaid parhau gyda’r traddodiad mentergarwch wrth gorddi menynd yn fynd gyda’r danteithion. Cafwyd diwrnod o hwyl wyddonol flasus wrth i ni amseru’r corddi menynd. Wrth reswm ar ôl cynhyrchu’r fath gynnyrch o safon rhaid oedd ei flasu hefyd gyda jam organig cartref wedi ei wneud gyda siwgr Masnach Deg.

Beicwyr

Mae Bl.6 wedi cael cyfle i ddod yn feicwyr hyderus wrth gael arweiniad a gwersi beicio ar dir yr ysgol ac ar y lôn fawr. Diolch yn fawr i Aled am arwain y criw gan bob un o Fl. 6 sydd wedi dysgu gwersi pwysig ar sut i gadw’n ddiogel.

Hanfodion y Byd

Diolch i Mr Wright, daearegydd a ddaeth i rannu ei wybodaeth helaeth ar greigiau gyda’r dosbarth. Roedd yn brofiad rhyfeddol gafael yn y creigiau amrywiol a hynafol o berfeddion a chrombil y ddaear neu wedi eu creu gan losgfynddoedd diweddar. Sôn am wneud i rywun deimlo’n fychan wrth sylweddoli oed y byd ac ystod y bydysawd. Cafwyd hwyl hefyd yn creu daeargrynfeydd a gwahanol ffrwydradau. Gadawodd yr arbenigwr sawl cyw daearegydd ar ei ôl.

Hanes William Ellis Williams
[1881-1962]

Mab i chwarelwr oedd William Ellis Williams, a dreuliodd ei blentyndod yn byw yn Nhyddyn Canol, Rachub. Roedd ganddo ddiddordeb hynod mewn Mathemateg, a graddiodd yn y pwnc ym Mhrifysgol Bangor ym 1901. Yn ddiweddarach, ymddiddorodd ym maes peirianeg ac awyrennau, a dywedir iddo adeiladu rhannau o beiriannau awyren yn ei sied yn Nhyddyn Canol, cyn mynd â nhw draw i’r Brifysgol ym Mangor. Adeiladodd ei awyren gyntaf, ‘Bamboo Bird’ yn 1910, ond ni chafwyd llwyddiant. Rhoddodd gynnig arall arni yn 1913 ar draeth Llanddona, ac roedd honno’n gampwaith! Daeth y gŵr o Dyddyn Canol yn enw pwysig iawn yn y byd adeiladu awyrennau yn dilyn hyn, ac mae’n bwysig iawn ein bod yn cofio amdano! Mae ein disgyblion Cyfnod Sylfaen wedi cael eu swyno gyda’r hanes hwn, diolch i ymchwil Mrs Marian Jones. Llifodd yr awen, a’r canlyniad oedd i’n Côr Plant Bach ganu cân hollol wreiddiol, a gyfansoddwyd gan Mrs Jones, yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen eleni. Dyma beth yw Cwricwlwm Cymreig ar ei orau!

Ysgol Tregarth

Mewn Cymeriad – William Morgan

Yn ddiweddar cafodd disgyblion CA2 brofiad gwych yn gwyltio sioe gan y cwmni ‘Mewn Cymeriad’. O dan arweiniad yr actor Llion Williams fe gafwyd cyflwyniad bywiog am un o enwogion Cymru, yr Esgob William Morgan. Braf oedd cael dysgu am un o arwyr ein gwlad. Roedd y disgyblion wrth eu bodd yn cael cymryd rhan yn y sioe gyffrous yma. Pawb wedi mwynhau!

Dysgu am y glust

Diolch i Siân Mathias am ymweld â dosbarth Ffrydlas i roi cyflwyniad am y glust ynghyd a dysgu peth arwyddo i’r plant. Cafodd gymorth a chefnogaeth ardderchog gan Hannah Williams, disgybl ym mlwyddyn 5 a oedd wedi paratoi cyflwyniad ychwanegol ei hun. Diolch i’r ddwy am gefnogi dysgu’r dosbarth.

Plant Mewn Angen

Cafwyd diwrnod o hwyl yn yr ysgol i godi arian at elusen Plant Mewn Angen. Cafodd pawb y cyfle i ddod i’r ysgol wedi gwisgo fel eu harwr. Roedd yr ysgol yn llawn o wahanol gymeriadau. Diolch i bawb wnaeth gyfrannu a’n helpu i godi £150 at yr achos.

Gala Nofio yr Urdd

Dydd Sadwrn Tachwedd 15fed bu llu o ddisgyblion Ysgol Tregarth yn cystadlu yng Ngala Nofio'r Urdd ym mhwill nofio Bangor. Nofiodd pawb yn arbennig o dda ac roedd yn brofiad gwerthfawr iawn i’r plant. Llwyddodd Issy Forte o flwyddyn 4 i gyrraedd y ras derfynol yn y dull Pili Pala a hefyd yn y dull broga . Llongyfarchiadau mawr iddi am ddod yn drydydd yn y ddwy ras. Camp arbennig iawn o gofio ei bod yn cystadlu yn erbyn plant Eryri gyfan!

Eisteddfod Dyffryn Ogwen

Da iawn i bawb o Ysgol Tregarth a ymdrechodd yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen yn ddiweddar. Yn sicr roedd safon y cystadlu yn uchel iawn, perfformiadau'r plant i gyd i’w canmol. Llongyfarchiadau i’r canlynol: Esther Parry 3ydd Unawd Blwyddyn 1, Esther Parry 3ydd Unawd Offerynnol Blwyddyn 6 ac iau, Gwilym Gray 3ydd Unawd Piano Blwyddyn 6 ac iau, Parti Llefary 3ydd, Parti Unsain 3ydd, Band 3ydd.

SIALENS YR AELOD SENEDDOL

Mae AS Arfon, Hywel Williams, yn gwneud sialens y Weiren Wib i godi arian ar gyfer yr elusen leol, Apêl Eleanor Jones i Godi Arian i Brynu Offer i Ward Alaw. Bydd yr AS dewr yn camu i’r cymylau uwchben Bethesda ddydd Sadwrn, Rhagfyr 13 wrth iddo baratoi ar gyfer saethu i lawr y Wifren Wib



,Velocity. Y wifren wib hon yw’r hwyaf yn Ewrop, a’r gyflymaf yn y byd.

Dywedodd Hywel Williams AS. ‘ Mae Eleanor a’i ffrindiau wedi gwneud gwaith arbennig i godi dros £20,000 tuag at brynu offer ar gyfer Ward Alaw yn Ysbyty Gwynedd.

Hoffwn gymryd y cyfle yma i ddiolch i Eleanor am ei hymdrechion a’i hymroddiad i godi arian ar gyfer achos sydd mor agos at ei chalon, a hithau ei hun yn dioddef o ganser. Rwy’n hynod o falch o fedru cefnogi’r ymgyrch yma ac rwy’n gobeithio y bydd pawb yn cefnogi’r Apêl, fel ein bod yn casglu cymaint o arian ag sy’n bosib ar gyfer yr achos. Mae Ward Alaw yn darparu gofal arbennig i gleifion sy’n dioddef o ganser, ynghyd a rhoi cefnogaeth amhrisiadwy i deuluoedd yn ystod cyfnodau anodd.’

I gyfrannu i’r Apel ewch i : <http://www.indiegogo.com/projects/antur-nadolig-plaid-plaid-christmas-adventure><<http://www.indiegogo.com/projects/antur-nadolig-plaid-plaid-christmas-adventure>>

Cofiwch Brynu

Calendr Llais Ogwan



Yr anrheg Nadolig ddelfrydol

£4.00 yn y siopau lleol

neu ffoniwch
Dafydd Fôn Williams 01248 601583

Llyfrau'r Nadolig

COFIO CADOEDIAD NADOLIG 1914 GYDA NOFEL WREIDDIOL ARBENNIG

• Enillodd Gareth F. Williams wobwr Tir na nOg am ei nofel oedd yn ymdrin â thrychineb tanchwa Senghennydd 1913. Eleni mae'n cyhoeddi nofel am yr heddwch dewr a welwyd rhwng milwyr yn y ffosydd ar Ddydd Nadolig 1914

• Roedd milwyr y ddwy ochr dan orchymyn i 'Danio ar y Gelyn'. Mewn gwirionedd, miwtini oedd y cadoediad - penderfynodd y milwyr wrthod ufuddhau i'w uwch swyddogion ac wynebu'r 'gelyn' ar Dir Neb, ysgwyd dwylo, canu carolau a hyd yn oed chwarae ambell gêm o bêl-droed.

Y Gêm gan Gareth F. Williams

Mae'r stori yn dechrau yng nghefn gwlad Cymru gyda'r prif gymeriadau yn 11 oed. Roedd Alun a Tecwyn yn ffrindiau gorau pan oedden nhw'n blant. Ond, yn dilyn ymweliad â'r Hen Dŷ un prynhawn poeth, trodd y ddau ffrind yn ddau elyn.

Yna yn 1914, mae Alun a Tecwyn yn gadael eu cartrefi yn Eryri a mynd i ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Nôl adref, roedd y ddau'n hen gyfarwydd â chwarae gêm fudur o bêl-droed yn erbyn ei gilydd. Ond, ar ddiwrnod Nadolig yn ffosydd Ffrainc, mae heddwch undydd rhwng milwyr dwy fyddin yn gorfodi Alun a Tecwyn i chwarae gêm o bêl-droed i'r un tîm. Tra bo carolau'n clecian yn lle gynnu, a fydd y ddau'n dychwelyd adref i chwarae gêm gyfeillgar arall o bêl-droed?



Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

Gorchwyl drist oedd ein gwaith cyntaf yn ein cyfarfod misol diwethaf sef cydymdeimlo'n ddwys gyda'r Cynghorydd Dafydd Meurig a'r teulu yn eu profedigaeth o golli tad Dafydd, sef Mr Emlyn Evans, Rhos y Nant, person gweithgar ac adnabyddus iawn yn yr ardal. Cafwyd munud o dawelwch i gydnabod ein cydymdeimlad.

Bu Hywel Williams A.S. ac Alun Ffred A.C. yn bresennol yn agoriad swyddogol Siop Ogwen ar Stryd Fawr, Bethesda, ac yr ydym ninnau fel cangen yn dymuno'n dda iawn i'r fenter newydd hon.

Mae llawer o waith rhannu pamffledi wedi digwydd yn ystod y mis. Buan iawn y daw'r etholiad wedi troad y flwyddyn newydd. Tybed a gaiff Dafydd Llefrieth bâr o esgidiau newydd gan Siôn Corn?

Bydd Hywel Williams A.S. yn hedfan ar y Weiren Wib i gasglu arian tuag at Apêl Eleanor ac Awyr Las ar Ragfyr 13eg, ac apeliwyd am gefnogaeth.

Roedd y Cynghorydd Ann Williams yn falch o weld bod gweithwyr wedi bod yn tacluso maes parcio Cae Stâr wedi iddi wneud cais am hyn. Mae hi yn dal i fod mewn trafodaethau gyda bwsus Arriva ynglŷn â'u llwybrau taith yn yr ardal.

Dyddiad i'ch dyddiadur:- Rhun ap Iorwerth, A.C., fydd ein gŵr gwadd yn ein Cyfarfod Blyneddol yng Nghanolfan y Cefnfaes ar Nos Wener, Chwefror 27ain. Cofiwch bod croeso unrhyw adeg i gysylltu a ni ym Mhlaid Cymru os ydych angen holi amdanom neu yn dymuno ymuno.

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Nyth y Gân

Apêl am wybodaeth ynghylch cerdd am y milwyr plwm

Daeth y gerdd hon i law gan Annette Williams, Fferm Crymlyn, Abergwyngregyn (Braichmelyn gynt). Roedd y gerdd ym meddiant y diweddar Glyn Owen, cigydd o Lansannan a pherthynas i ŵr Annette. Fe'i cynhwyswyd hi mewn llawysgrifen o fewn cloriau llyfr Saesneg i blant, a gafodd Glyn yn anrheg tua 1940.

Gan fod 100 mlynedd wedi mynd heibio ers dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf roedd Annette yn credu y byddai'n beth da cael ei chyhoeddi unwaith eto. Tybed oes rhywun yn gwybod pwy oedd awdur y gerdd a phryd ysgrifennwyd hi?

Santa Clos

Roedd Santa Clos, ers talwm
Yn chwilio yn ei sach
Am sowldiwr plwm mewn cotiau coch,
I roi i hogyn bach.
A dyna hwyl oedd gosod
Y sowldiwr ar y bwrdd,
I ffugio saethu'r naill a'r llall
A chludo'r meirw i ffwrdd.
Wrth gwrs doedd neb yn meddwl
Ond trist wirionedd yw,
Fod sowldiwr plwm yn debyg iawn
O droi yn filwyr byw.
Ac felly bedair blynedd
Bu gwae a brwydro trwm,
Cyd rhwng y rhai fu'n chwarae gynt
Â rhes o sowldiwr plwm.
Mae Santa byth ers hynny
Am feithrin ysbryd iach,
Trwy wyllo pa fath degan rydd
Yn nwylo hogyn bach.



Eisiau gweithio gyda phlant ifanc?

Dyma gyfle gwyh ichi ennill cymhwyster **Diploma Lefel 3 CACHE** mewn **Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant** yn y gweithle.

Mae'r cynllun hyfforddi cenedlaethol yma yn cael ei gynnal gan Mudiad Meithrin, trwy ei is-gwmni Cam wrth Gam, o 1 Ebrill 2015 hyd 31 Mawrth 2016.

Gwahoddir siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da i ymgeisio am le ar y cynllun hyfforddi rhan-amser yma a leolir mewn cylchoedd meithrin, meithrinfeydd dydd neu ysgolion cynradd ledled Cymru.

Am becyn gwybodaeth ffoniwch: **01970 639 601**

neu e-bostiwch: [**post@camwrthgam.co.uk**](mailto:post@camwrthgam.co.uk)

neu lawrlwythwch becyn gwybodaeth llawn o'n gwefan: [**www.camwrthgam.co.uk**](http://www.camwrthgam.co.uk)

Dyddiad cau: 23 Ionawr, 2015

Dilynwch ni: @camwrthgam  



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



S4C

y gwyll.
hinterland

9.00
1 Ionawr

Mae DCI Mathias yn ôl mewn pennod unigryw arbennig.

#vawyll

Chwaraeon

Wu Shu Kwan - Bocsio Cic Tsieineaidd

Dyma lun o Angharad Jones a Tomos Williams, o ddosbarth Wu Shu Kwan Tregarth, sef y myfyrwyr benywaidd a gwrywaidd gorau yn 2014. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt!

Cynhelir y dosbarthiadau yng Nghanolfan Gymdeithasol Tregarth bob nos Fercher rhwng 6.30 a 8.30. Os am gadw'n ffit a cholli ychydig o bwysau beth am alw draw! Mae'r wers gyntaf yn rhad ac am ddim.



Y Cae Ffwtbol

Atgofion Pêl-droed Gareth Jones, (Gareth Saer) Pantglas, Bethesda

Yn y pedwar degau cefais fynd efo fy nhad i'r cae ffwtbol am y tro cyntaf, ac ar ôl hynny dyna lle roeddwn i bob pnawn Sadwrn.

Yn ôl y sôn, cae wedi ei drosglwyddo i ardal Bethesda gan Stad y Penrhyn ydi Parc Meurig, a hefyd cafwyd y tir hamdden neu'r "Pleasure Ground" fel y'i gelwid, er mwyn i'r merched a'r plant gael lle i fynd am bicnic.

Yn ystod yr amser yma y tîm a welais i yn chwarae oedd Penrhyn Quarry, tîm o fechgyn lleol oedd dan ofal H.B.Smart, Richard Jones, Dafydd Llywelyn, Taff Morris (dyn y "Magic Sponge"), Emlyn Davies (leinsman), Mr Griffith, Banc Midland (trysorydd) a Mr Smail (garej) - ac efallai bod eraill nad ydw i'n eu cofio!

Rwyf yn cofio'r rhan fwyaf oedd yn chwarae, sef Gwilym Davies, Gwilym Rees, Dic Jones ('Rocar'), Stan Taylor, Kitchener Roberts, Benny Williams, Wil Owen, William Griffith, Gwilym Pritchard, Bobby Morris, Gwilym Morris, Wil Ivor (George), ac wrth gwrs y seren, Harry Cropper.

Roedd Penrhyn Quarry yn aelodau o adran gyntaf Gogledd Cymru gyda thimau o Fflint, Treffynnon, Llandudno, Conwy, Cyffordd Llandudno, Penmaenmawr, Llanfairfechan, Llanrwst, Bangor, Rhyl, Caergybi, Pwllheli, Porthmadog a Chaernarfon yn chwarae ynddi. Am ddau dymor neu dri cafodd timau fel y 5th Cheshires, H.M.S. Glendower ac R.A.Tonfannau yr hawl i chwarae yn yr adran. Bechgyn oedd yn aelodau o glybiau mawr Lloegr ac yn gwneud eu gwasanaeth milwrol (y "national service") oedd y mwyafrif, ac un o dîm Tonfannau oedd Ronnie Clayton a aeth yn ei flaen i fod yn gapten ar dîm pêl-droed Lloegr yn ddiweddarach.

Dwy gêm fawr i mi gofio yn yr adeg honno. Dim ond un ohonynt gafodd ei chwarae ar Barc Meurig, a honno oedd y gêm yn erbyn Merthyr Tudful oddi cartre' yng Nghwpan Amatur Cymru. Y gêm arall dwi'n ei chofio oedd y gêm yn erbyn Wrecsam adref yng Nghwpan Cymru. Colli'r ddwy gêm fu ein hanes - un yn agos, 3 - 1, a'r llall yn drwm, 6 -1. Dyma'r unig adeg i mi weld y cae mor llawn o wylwyr, ac er iddi fod yn ddiwrnod ysgol fe gawsom ganiatâd gan y prifathro, Mr Ewart Price, i fynd i Barc Meurig i weld y gêm am ddau o'r gloch.

O gwmpas diwedd y pedwar degau neu ddechrau'r pum degau fe newidiwyd enw'r tîm i Bethesda Athletic, ac wrth gwrs fe ddaeth chwaraewyr newydd i mewn i'r tîm a'r rheiny eto yn fechgyn o'r ardal. Rwy'n cofio rhai fel Vic Jones, Gwynfor Hughes, Hywel Williams, Ronnie a Bobbie Tŵr, Robert Henry Thomas, Pete Densham, Stan Edwards, John Henry Jones, Reg Williams, Gwilym Bont ac eraill.

Hefyd, fe ddaeth tri chwaraewr proffesiynol i mewn i'r tîm, sef Ernie Jones, Arthur Lunn a Jack Williams, ac fe ymunodd Jackie Jones o Fangor hefyd. Er bod timau da yn yr adran roedd nifer y cefnogwyr yn gostwng a methodd Llanrwst a Llanfairfechan a pharhau. Ymunodd Cyffordd Llandudno efo Conwy a galw eu hunain yn Conway United.

Yn y chwedegau, collais ddiddordeb yn y gêm bêl-droed oherwydd bod criced wedi dechrau yn yr ardal. Er hynny roedd y dynfa i Barc Meurig yn dal yn y gwaed, ac mewn cyfarfod blynyddol fe godwyd Tommy Jones yn gadeirydd, Bert Williams yn drysorydd a minnau'n ysgrifennydd. Dyma enwau rhai o'r lleill a godwyd ar y Pwyllgor :- Derek de Waart, Denis Davies, Rol Jones, Emlyn Davies, Elwyn Jones, Glyn Williams, W.P. Jones, Chuck Thomas, Gwilym Burgess a Ffrangcon Roberts. Yn ystod y cyfnod yma fe symudwyd Bingo'r Clwb Pêl-droed o Siop Orem i Neuadd Ogwen, ac fe ddaeth mor boblogaidd nes bod rhaid cynnal tair noson, sef Llun, Iau a nos Sadwrn, a thair neu bedwar bws yn cario'r cefnogwyr o bob man.

Gan fod y Bingo yn gwneud mor dda ac arian yn cronni fe benderfynwyd cael chwaraewr reolwr ("player manager") i redeg y tîm, ac fe hysbysebwyd yn y Daily Post. Cafwyd tri ymgeisydd a bachgen o'r enw John Currie gafodd ei benodi. Wrth gwrs newidiodd pethau ar y cae gan ddod a chwaraewyr o Rhyl ac ochrau Caer i mewn, a dim ond un o'r ardal yn cael ei ddewis, sef Cemlyn Jones.

Wu Shu Kwan

Un o'r gemau cyntaf dan ofal John oedd yn erbyn Croesoswallt yng Nghwpan yr F.A.W. ar gae Parc Meurig, ond fel mae pethau yn medru newid dros gyfnod o wythnos ac fe gawsom eira trwm. Ar ôl rhoi cynnig arni dair gwaith i chwarae'r gêm ym Methesda bu raid mynd i Wrecsam i chwarae ar Nos Fercher. Gyda thipyn o lwc curodd Bethesda'r gêm honno o 3-2. Aethom drwodd felly a'r gêm nesaf oedd yn erbyn Wrecsam ar y Cae Ras. Er bod hi'n gêm dda - colli fu ein hanes ac roedden ni allan o'r cwpan!

Ond y tymor nesaf roedd rhaid rhoi cynnig arall arni, ac ar Ionawr 25ain, 1969, roedd y gêm yn erbyn Pwllheli, gartref, yn bwysig iawn oherwydd roedd y tîm buddugol i chwarae yn erbyn Caerdydd ar Barc Ninian (cae Caerdydd ar y pryd). Sut bynnag, curo wnaeth Bethesda o 3-2 a'r peth nesaf i'w wneud oedd trefnu'r gêm fwyaf i'r clwb ei chwarae erioed. Penderfynwyd mai Nos Fercher y 5ed 1969 oedd fwyaf cyfleus i'r ddau glwb ac oherwydd bod Caerdydd mor bell fe drefnwyd i aros noson yng Ngwesty Long Mynd ac yna teithio ymlaen i gyrraedd Caerdydd erbyn pedwar o'r gloch ddydd Mercher.

Roedd deuddeg o chwaraewyr wedi teithio i lawr, sef Brian Dobing, Cemlyn Jones, Eddie Garrett, John Currie, Dave Satziger, Robin Poole, Mickey Hunt, Frank Boardman, Howie Jones, Les Hurley, a Barrie Lewis gyda Dave Walsh fel eilydd. Ond er i Fethesda chwarae'n dda - colli 6 - 1 oedd y canlyniad, a John Toshack yn fachgen ifanc yn sgorio ddwy waith.

Ar ôl dwy neu dair gêm arall cymerodd y Cadeirydd yn ei ben bod eisiau newid y Chwaraewr Reolwr a heb i'r Pwyllgor wybod dim aeth i Gei Connah a rhoddi'r swydd i Johnny Jones. Oherwydd hyn, ynghyd a phethau eraill oedd yn ymwneud â'r clwb doedd dim i'w wneud ond i mi ac eraill ymddiswyddo gan adael y dasg o redeg y clwb yn nwylo pobl eraill.

Un gêm na chafodd ei gorffen ar ddydd Sadwrn oedd Bethesda yn erbyn Rhyl yn y Cwpan F.A. Oherwydd trwbl rhwng y chwaraewyr a chefnogwyr y ddwy ochr bu raid gohirio'r gêm a'i hail chwarae ar y dydd Mercher. Chafodd Bethesda ddim maddeuant gan yr F.A., na chwaith wahoddiad i gymryd rhan byth wedyn!

Cyn gorffen hoffwn sôn am "Wembley", sef y Tir hamdden neu'r "Pleasure Ground" (sydd rhwng y cae pêl-droed a garej Ffrydlas). Cyn y gêm fawr ar Barc Meurig fe fyddai gêm yn "Wembley" rhwng "Cymru" a "Lloegr" a'r hogiau yn cymryd arnynt mai nhw oedd yr arwyr o'r ddwy ochr gan ddefnyddio enwau tîm Cymru - rhai fel Cyril Sidlow, Alf Sherwood, Trefor Ford, Cliff Jones, Ifor Allchurch a llawer enw arall. Byddai tîm "Lloegr" yn defnyddio enwau fel Bert Williams, Billy Wright, Stan Mathews, Tom Finney, Albert Stubbins ac yn y blaen. Fe fyddai'r gêm yn parhau nes byddai'r gêm fawr yn dechrau neu tan fyddai un tîm wedi sgorio deg gôl. Mae edrych yn ôl ar amser difyr na ddaw byth yn ôl yn tynnu tipyn o ddagrau i'r llygaid - a meddwl lle mae'r amser wedi mynd!



Mae'r llun uchod yn dangos aelodau tîm pêl-droed 'Penrhyn Quarry' y sonnir amdanynt yn yr hanes gan Gareth Jones (Saer)